

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 5

BEDDAU'R
PROFFWYDI

Drama mewn Pedair Act

Gan

W. J. GRUFFYDD



CARDIFF:

THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.
LONDON: 9, SOUTHAMPTON STREET, HOLBORN, W.C.1.

*Rhaid cael caniatâd i chware'r
ddrama hon. Anfoner ceisiadau
at y Cyhoeddwyr.*

*Copyright under the Copyright
Act, 1910.*

—
*Licences granted for public
performance by the
Educational Publishing Co., Ltd.,
London and Cardiff.*

891.662

W465

no. 5

CYMERIADAU.

Robert William, *Gŵr y Sgellog Fawr.*

Emrys, *Ei fab.*

Y Parch. Azariah Evans, *Gweinidog Siloh, Llanddyfi.*

Huw Bennet, *Y Gelli,*

Dafydd Davis, *Y Siop,*

Mr. Humphreys, *Yr Ysgol,*

William Prichard, *London*

House,

} *Blaenoriaid Siloh.*

John Vaughan, *Gŵr yr Hafod.*

Roberts, *Plisman.*

Alexander McLagan, *Cipar.*

Elis Parry, *Meistr y Tloty yn Nhrefraerau.*

James Wynne, *Ystiward Tir.*

Twm Huws, *Un o'r Tlodion yn y Tloty.*

Un Arall o'r Tlodion.

Porthor y Tloty.

Mali William (neu Owen), *Mam Robert William.*

Elin William, *Gwraig y Sgellog Fawr.*

Agnes Vaughan, *Merch yr Hafod.*

Ann, *Morwyn y Sgellog Fawr.*

Mari, *Morwyn y Tloty.*

Meistres y Tloty.

Amryw o Dlodion.

Edw. Publ. Co.

1842

Parry

Celtic grad. Soc.

9 6844

Chwareuwyd BEDDAU'R PROFFWYDI gyntaf yn y Chwareudy Brenhinol, Caerdydd, ar y 12fed o Fawrth, 1913, pryd y cymerwyd rhan gan y personau canlynol :

Ann	-	-	-	-	<i>Margaret Davies</i>
Emrys	-	-	-	-	<i>W. J. Gruffydd.</i>
Elin William	-	-	-	-	<i>Llywela Jones.</i>
Agnes Vaughan	-	-	-	-	<i>Lillian Evans.</i>
Mari	-	-	-	-	<i>Eunice Evans.</i>
Mali Owen	-	-	-	-	<i>W. Edwards.</i>
Robert William	-	-	-	-	<i>Richard Hughes.</i>
Huw Bennet	-	-	-	-	<i>Evan Hughes.</i>
Twm Huws	-	-	-	-	<i>Ernest Hughes.</i>
William Prichard	-	-	-	-	<i>Cynolwyn Pugh.</i>
Dafydd Dafis	-	-	-	-	<i>Ivon Jones.</i>
Mr. Humphreys	-	-	-	-	<i>Harold Lewis.</i>
Y Parch. Azariah Evans	-	-	-	-	<i>William Jones.</i>
John Vaughan	-	-	-	-	<i>Dan Jeffreys.</i>
Roberts	-	-	-	-	<i>Jenkyn Williams</i>
James Wynne	-	-	-	-	<i>Morgan Rees.</i>
Elis Parry	-	-	-	-	<i>James Davies.</i>
Alexander McLagan	-	-	-	-	<i>Martin Thomas.</i>
Un o'r Tlodion	-	-	-	-	<i>Henry Lewis.</i>
Porthor	-	-	-	-	<i>M. T. Adams.</i>

ACT I.

Cegin y Sgellog Fawr, tuag wyth o'r gloch.

ACT II.

Parlwr tŷ capel Siloh, Llanddyfi.

ACT III.

Ystafell fwyta gyffredin y Tloty yn Nhre'rcaerau.

ACT IV.

Cegin y Sgellog Fawr, tuag wyth o'r gloch.

Y mae tua mis o amser rhwng yr Act Gyntaf
a'r Ail Act ;

Tua dwy flynedd rhwng yr Ail a'r Drydedd ;

Tua phedair blynedd rhwng y Drydedd ar
Bedwaredd.

“ Quelque grave que fût déjà ce mal invisible, mais réel, il était encore guérissable par une heureuse conclusion. Pour ébranler tout à fait cette vigoureuse organisation, il suffirait d'un obstacle nouveau, de quelque fait imprévu qui en romprait les ressorts affaiblis, et produirait ces hésitations, ces actes incompris, incomplets, que les physiologistes observent chez les êtres ruinés par les chagrins.”

BALZAC, *Le Colonel Chabert.*

BEDDAU'R PROFFWYDI.

YR ACT GYNTAF.

[Cegin y Sgellog Fawr tuag wyth o'r gloch y nos, yn nechreu mis Tachwedd, rhyw ugain mlynedd yn ol. Nid yw'r canhwyllau wedi eu goleu eto, ond teifl y tân wawr gynnes tros yr ystafell. Ar y llaw dde, y ma'e'r tân,—tân coed isel yn llogi'n ffyrnig. Ar y llawr o'i gylch, ar y pentanau, ac yn crogi ar gadwyni, y mae crochanau a llestri o'r fath. Nid oes yma ffender o gwbl, heblaw'r hen Bero, y ci, sy'n gorwedd ar ei hyd ar yr aelwyd. Wrth y tân, ac yn ein hwynebu, y mae setl dderw drom, ac arni'n eistedd hen wraig, MALI OWEN, yn gwau hosanau. Y ma'e'n amlwg bod ei dyddiau gweithio hi trosodd,—y ma'e'i dwylo'n crynu wrth drin y gweill. Mae ganddi gap gwyn—y "cap lasiau" hen ffasiwn—am ei phen, a barclod stoff tywyll o'i blaen. Teifl ambell olwg ar y tân, a dyry ei gwau i lawr yn aml ar ei harffed, a syll yn bendrist i'r fflamau, fel pe bai'n gweled rhywbeth y tu draw iddynt. O flaen y tân, ac wrth law dde MALI OWEN, y mae bwrdd crwn a lliain gwyn arno, yn barod at bryd. Y mae "bwrdd mawr" o flaen y ffenestr sy'n mhen draw yr ystafell, ac ystenau,

BEDDAU'R PROFFWYDI

dysglau, platiau, a chylllyll yn dryblith arno. Ar ochr chwith y ffenestr y mae cŵpwrdd tridarn, a phlatiau gleision ar y darn canol. Ar yr ochr chwith, yn nês atom, y mae'r prif ddrws, yn arwain i ffrynt y tŷ; y mae drws arall y tu ol i'r setl yn agoryd i'r tŷ llaeth (neu'r briws) ac i ddrws y cefn. Troell bach yn y gongl wrth y drws chwith, a "chloc wyth" ar y pared wrth ddrws y briws. Cadeiriau derw yma ac acw ar hyd yr ystafell. Ar y pared, darluniau o rai o'r hen bregethwyr, ac almanac neu ddau yn cymell bwyd gwartheg, gwertaithe esgyrn, a nwyddau o'r fath. Mewn byr eiriau, gellir dywedyd bod y gegin yr un fath a phob cegin arall yn Sir Gaernarfon—neu Sir Fynwy—yng nghartre'r amaethwyr hynny sy dipin cyfoethocach na thyddynwyr, ac eto heb ddyfod yn agos i ardderchogrwydd ffermwyr mawr Sir Fôn a Bro Morgannwg.]

ROBERT WILLIAM (*yn dyfod i mewn gyda llusern yr ystabl yn oleu yn ei law. Gŵr bychan, bywiog ei ysgogiadau, pwyllog ei leferydd : hawdd ei gythryblu, ond yn anghofio'n fuan : yn siarad llawer, ond yn gallu cadw ei gyfrinach crystal ag ungrwr*) : Mae nhw wedi'ch gadael chi ar ych pen ych hun yn y twllwch, mam ?

MALI OWEN : Hitia befo. Rydw i'n hen gynhefin â bod yn unig, weldi : a mi fedra i weld llawn cymint yn y twllwch, am wn i wir,—a mwy.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM : Wel, rhaid ini gael lamp i'ch gweld chi beth bynnag, rhag ofn ych bod chi ar rhyw berwyl drwg. (*Yn galw.*) Elin ! Elin !

ELIN WILLIAM (*o'r tŷ llaeth*) : Beth sydd eisio ?

ROBERT WILLIAM : Dowch â thipyn o ola yma, neno'r taid ; mae'r hen wraig i hun yn y fan yma, fel pelican yr anialwch. Mae hi'n wyth o'r gloch, ac yn dywyll fel bol buwch.

MALI OWEN : Wyth o'r gloch ! Wyth o'r gloch !

ROBERT WILLIAM : Welis i rioed siwn beth ag Elin yma ar ol i Emrys ddwad adre. Mae hi wedi pendroni'n lân ;—chafodd y moch yr un tamad o fwyd bore heddiw, mi gymra i fy llw,—a wyddoch chi beth, mam ? roedd yna flas hir hel ar y menyng yr wythnos yma,—oedd fel mae byw fi ;—y tro cynta erioed ar ol i Elin ddwad i'r Sgellog.

ELIN WILLIAM (*yn dyfod i mewn gyda'r lamp*) : Tewch â rhuo, Robert, am y menyng yna o hyd. Mae llawer mwy o hir hel wedi bod arno ar ol i roi ar y bwrdd na chynt, ddyliwn i. Ydi'r gola'n rhy gry i chi, nain ?

MALI OWEN : Mae'r gola'n rhy gry i mi bob amser, weldi. Rydw i jest a darfod hefog o.

ELIN WILLIAM : Peidiwch a chyboli wir, nain bach. Dydech chi ddim ond dechra byw etc. Ond

BEDDAU'R PROFFWYDI

oeddech chi'n deyd, os ydech chi'n cofio, pan oedd Emrys yn mynd i ffwrdd i'r ysgol am y tro cynta na chaech chi byth i weld o wedyn,—a dyma fo wedi gorffen ac wedi cael i radd,—a chitha ddim blewyn gwaeth.

MALI OWEN : Amal gnoc, y ngeneth i, dyr yr hen garreg. . . . Mae Emrys yn ymdroi'n hir iawn yn rhywle.

ELIN WILLIAM : Chware teg i'r hogyn ; ceisio meddwl y mae o'n rhywle : fedar neb feddwl dim yn y tŷ yma,—a Robert yn clebran o hyd fel prep melin, ag Ann a finna'n cloccio o gwmpas hefo'r llaeth i'r lloia. Ond marciwch chi fcd gynno fo rywbeth mawr ar i feddwl ; mae o'n sôn o hyd y myn o wneud i ôl ar y wlad yma,—a fynta wedi cael cyfle mor ardderchog. Ag mae eisio rhywun i ail-bobi tipin ar yr hen wlad, rhywun i ddysgu tipin arni, rhywun i roi tipin o gryfdwr yn asgwrn i chefn hi, a gewch chi weld mai Emrys ydi'r dyn.

ROBERT WILLIAM : Wel, tawn i'n llwgu ar y fan yma, dyma'r hen Elin yn dechra'i gweld nhw eto. Rhyngoch chi i gyd—mam yn gweld petha yn y tân, ag Ann yn stydio Geiriadur Charles, ag Emrys yn mynd i wneud tŵr melin ag eglwys, a chitha eto Elin yn siarad fel Llyfr y Diarhebion, does gen ddyn glân o Gymro ddim siawns i roi'i big i mewn.

BEDDAU'R PROFFWYDI

MALI OWEN : Taw, Robert bach. Yr ydan ni i gyd wedi bod yn cysgu'n rhy hir,—mae Elin yn iawn. . . . Yr hen a wŷr, a mi leiciwn i cyn marw weld Emrys bach yn rhoi tro yng nghynffon y bobol yma sy'n yn cadw ni i lawr.

ROBERT WILLIAM : Pam na fasa fo'n mynd yn brygethwr, ynte, os ydi o mor awyddus am roi tro yng nghynffonna pobol?

ELIN WILLIAM : Mi fasa Emrys yn gneud cystal prygethwr a'r un ohonyn nhw (*yn pwyntio at y lluniau*) o ran hynny. 'Does gen neb air i ddeyd yn erbyn i gymeriad o,—ond mae o'n deyd y gneith o well gwaith y tu allan i'r pulpuđ.

ROBERT WILLIAM (*yn datod ei esgidiau*) : Wel, nid meddwl y mae o heno ; mi gymra i fy llw mai troi'i draed tua'r Hafod y mae o. (*Yn tynnu ei gôt a'i rhoi ar ei fraich.*) Ydech chi'n meddwl y gneith hi wraig iddo fo, Elin? (*Yn cerdded tua'r tŷ llaeth.*) Waeth befo, o ran hynny, mae genni ddigonedd o arian.

(ANN *yn dyfod o'r tŷ llaeth, ac am eiliad yn aros i glywed ateb ELIN WILLIAM.*)

ELIN WILLIAM : Twt, twt!—mae'n rhy fuan iddo fo feddwl am briodi am flynyddoedd eto,—a mae'r hen Vaughan, welwch chi, yn disgwyl rhywbeth gwell i Miss Agnes na mab i ffarmwr. . . . Ydech chi wedi gorffen, Ann?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ANN : Do, 'r cwbwl. Rydw i wedi tywallt
llaeth heno i gyd i'r potia cadw.

ROBERT WILLIAM : Paid a chadw cymin
arno fo'r tro yma, 'ngeneth i. Mae dy feistres
wedi mopio wrth feddwl am Emrys, a mae rhyw
bry yn dy gorun ditha, ddyliwn. (*Yn myned i'r
tŷ llaeth.*)

MALI OWEN (*yn syllu i'r tân*) :

“ UN clefyd mewn dwy galon
Yrrodd lawer tŷ yn yfflon.”

(ANN *yn myned allan.*) Mae Ann yn rhy ddistaw
i wneud morwyn dda, Elin. Mae hi cyn ddyfined
a'r Llyn Du. Wyddost ti ar y ddaear beth sydd ar
waelod y llyn,—faint o esgyrn pobl wedi boddi
. . . . Mae Emrys yn hir iawn yn rhywle.

ELIN WILLIAM : Tewch wir, nain ; rydech
chi'n 'y ngneud i'n bur drwblus yn i gylch o. (*Yn
edrych drwy'r ffenestr.*) Mae hi'n dywydd garw
heno, a mae nhw'n deyd fod peth wmbreth o ryw
hen *boachers* o'r dre o gwmpas y wlad. Mae'r
sgweier wedi addo ar i beth mawr ynta mai'i cosbi
hyd eitha'r gyfraith gâ nhw. Mae o o'i go las am
i fod o'n methu a'i dal nhw. (MALI OWEN *yn
ochneidio.*) Beth rydech chi'n ochneidio, deydwch ?

MALI OWEN : Gweld petha rhyfedd yn y tân
yma. 'Dwyt ti ddim yn meddwl y bydd yr hen
Vaughan yn fodlon i Emrys gael Agnes, wyt ti ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ELIN WILLIAM : Waeth gen i o gwbwl—ond dydi hi ddim hanner digon da iddo fo,—yr hen beth larts benchwiban iddi hi. Does genni ddim golwg o gwbwl ar y teulu,—cribddeilwyr a chrintachod ydyn nhw o hil gerdd. Ond mae Robert wedi cymryd rhyw chwilen yn i ben am fod yna arian yn yr Hafod, ag mae o'n meddwl—

ROBERT WILLIAM (*o'r tŷ llaeth*) : Rydw i yn ych clywed chi, Elin William. Tasa fo'n i chael hi, fasa ddim rhaid iddo fo weithio'r un cnoc byth,—mae na le siort ora iddo fo roi'i het ar yr hoel. Peidiwch ag ymyrraeth â'r hogyn ; gadwch lonydd iddo fo.

ELIN WILLIAM (*yn codi ei llais*) : Gadael llonydd iddo fo wir ! Gadael llonydd iddo fo ! Os medra i 'i gadw fo rhag syrthio i ddwylo'r Ismaeliaid, mi wna hynny, mi ellwch chi fod yn ddigon siwr. Ymyrraeth wir ? Gan bwy mae'r hawl i ymyrraeth os nad gen i ? Pwy fu'n cynhilo pob dima i yrru o i'r coleg, pan oedd i dad o'n grwgnach fel costog bob dydd ? Pwy fu'n mynd i'r capel bob Sul yn llwm ag yn dlawd er mwyn i gadw fo yno fel roedd o'n haeddu ? Pwy oedd yn credu y basa fo'n gneud gwyrthia yno, a phwy sy'n credu y bydd o'n broffwyd ac yn efangylydd yng Nghymru eto ? Pwy cnd i fam o ? Mi ellwch chi roi caead ar ych piser yn ddigon di-lol o ran hynny !

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM (*yn y drws yn llewys ei grys, â sebon hyd ei wyneb*) : Dyna hi eto ! Ar y fend i, chai ddim agor y ngheg heb i chi neidio i ngwddw i. 'Does arna i ddim eisio fforsio'r hogyn —nag oes arna i, neno'r brenciach annwyl. Eisio iddo fo gael chwara teg sy arna i. Rydech chi'n gweld potsiars ym mhob twll a chongol,—ag Agnes yr Hafod ydi'r potsiar rwan, ddyliwn i. Potsiar wir !

ANN (*yn dyfod i'r tŷ*) : Mae Miss Vaughan yr Hafod yn dwad ar y buarth, mistres.

ROBERT WILLIAM : Brenin annwyl ! lle mae ngholar i, Elin ? Ann ! wyt ti wedi hiro fy sgidia gora i ? Mam ! ydi'ch gwyneb chi'n lân ?

MALI OWEN : Wyt ti'n gweld y ddwy fflam groes yna yn y tân, Ann ? Dyna nhw, weldi.

ANN : Ydw, nain. Ydi hynny'n arwydd o rwbeth, deydwch.

ROBERT WILLIAM : Ydi, siwr iawn,—sein barrug ; mae nghymala i yn pigo ers tridia. Mae'n rhaid imi roi tipyn o Oel Morus Ifan arnyn nhw.

ANN : Fydd arnoch chi ddim f'eisio fi eto, mistres ?

ROBERT WILLIAM : D'eisio di ?—bydd debig iawn wir,—i neud cwpaned o dê i Miss Vaughan. Beth wyt ti'n rhythu arna i, dwad, fel bwch ar drana ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ELIN WILLIAM (*yn ddistaw*): Na fydd, Ann (*Wrth* ROBERT WILLIAM.) Dydi Miss Vaughan ddim yn deall yn dull ni yn y Sgellog. Mae hi'n trin Ann fel y mae nhw'n trin morynion yr Hafod—fel tasa nhw'n faw dan draed. Dyna ffordd byddigions, debig gin i. (ANN *yn myned allan drwy ddrws y cefn.*)

(*Curo wrth y drws.* ELIN WILLIAM *yn agor i* AGNES VAUGHAN—*merch ifanc landeg wedi'i gwisgo yn y ffasiwn.*)

ELIN WILLIAM: Sut rydech chi, heno, Miss Vaughan? Dowch i mewn. Mae hi'n dywyll iawn, ond ydi hi?

ROBERT WILLIAM: Ia, dowch i mewn Miss Vaughan, a steddwch wrth y tân. (*Wrth Pero.*) Cerdd o 'ma. Pero,—'rwyf ti am y lle gora bob amser, yr hen fflagwt. Steddwch, Miss Vaughan. (AGNES VAUGHAN *yn eistedd wrth ochr* MALI OWEN *ar y setl y tu ol i'r bwrdd crown.*)

AGNES: Sut yr ydech chi i gyd. Ydech chi'n weddol, Mr. Williams? A chithe, Mali Owen?

ROBERT OWEN: Mae'r hen wraig yn i gweld nhw heno.

AGNES: Dydech chi ddim yn *superstitious*, ydech chi, Mali Owen? Does dim ond fflamau i gweld yn y tân.

BEDDAU'R PROFFWYDI

MALI OWEN : Mynd yn hen ag yn wirion rydw i. Welsoch chi mo Emrys ar y ffordd yna yn unlle ?

AGNES : Naddo, wir. Lle mae o wedi mynd ?

ELIN WILLIAM : Roedd o'n sôn i fod o'n mynd i weld ych tad i'r Hafod.

AGNES : Mae'n debig iddo gyrraedd wedi i mi gychwyn. Mi fum i'n ymdroi tipin tua'r siop, yn ol f'arfer.

ELIN WILLIAM : Roedd ynoddigon o straeon, mi wranta. Mae Mrs. Davies—a Dafydd Dafis hefyd o ran hynny—yn gwybod hanes y byd a'r Bettws.

AGNES : Chlywsoch chi rioed y fath beth ; doedd dim eisio imi yngan gair, dim ond gwrando. Sôn am *boachers* yr oedden nhw—(ELIN WILLIAM yn edrych drwy'r ffenestr)—a deyd fod y sgweier yn *just mad*—Mae gynno fo *suspicion* o'i *tenants* i hun. Mae o wedi bod hefo Mr. Evans y gweinidog yn rhoi *rating* iawn iddo am beidio pregethu yn erbyn *poachio*.

ROBERT WILLIAM : Ho, felly wir ! Mi gafodd damad go chwerw i gnoi gen yr hen lanc, mi dyffeia i o.

AGNES : Do, wir. Mae nhw'n deyd fod Mr. Evans wedi'i hel o dros y drws. Yr oedd Mrs. Davies yn gweld bai mawr arno am drin y *gentry* fel yna, ag yr *oedd* bai arno fo hefyd.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ELIN WILLIAM : Bai, Miss Vaughan ? Ydech chi'n meddwl y dylid trin y *gentry*, chwedl chitha, yn wahanol i bobol erill ?

AGNES : Wel, mae'n gwilydd i bobol gommon hel i dwylo hyd rai fel y Sgweier—a ninna'i gyd yn *tenants* iddo. Mae *Pa-pa* yn deyd bob amser fod pob parch wedi marw o'r wlad ar ol '68, ag mai ar y gweinidogion roedd y bai. Mi fyddwn ni fel teulu bron a mynd i'r Eglwys weithia : os ydi'r personiaid yn pregethu'n sal, mae nhw'n wŷr bonheddig, beth bynnag.

MALI OWEN :

“Gorchest benna gŵr bonheddig
Gwneud y tlawd yn llwm ag unig.”

AGNES : Ydech chi ddim yn meddwl peth fel yna, Mali Owen ?

MALI OWEN : 'Dydw i'n meddwl dim byd, rwan. . . . Ydi hi'n dywyll o hyd ?

ROBERT WILLIAM : Ydi fel bol——, fel *y tu mewn* i fuwch, Miss Vaughan. Mi ddaw Emrys toc.

ELIN WILLIAM : Hwyrach i fod o wedi mynd i gael sgwrs hefo'r gweinidog.

ROBERT WILLIAM : Wn i ar y ddaear sut y mae'r ddau yn medru cyd-dynnu,—mae Emrys yn mynd yn anffyddiwr glân, mae arnai'i ofn Dydi o'n credu dim yn y morfil, Miss Vaughan

BEDDAU'R PROFFWYDI

AGNES : Morfil? pa forfil?

ROBERT WILLIAM : Morfil Jona, wrth gwrs—wn i ddim beth ddaw ohono fo.

ELIN WILLIAM : Tewch, tewch, Robert. Rydech chi'n rhy bendew i wybod beth sy gan yr hogyn dan i fawd. Hogyn da ydi'r hogyn.

AGNES : O ia, eisio bod dan ddylanwad rhywun nice sy arno fo, ynte? Pe bai o'n byw hefo rhywun gwir grefyddol—(ROBERT WILLIAM yn edrych arni mewn syndod : ELIN WILLIAM yn gweni)—buan iawn y basa fo yn dwad yn ol.

MALI OWEN : Ydech chi'n grefyddol, Miss Vaughan?

AGNES : Ydw, rwy'n gobeithio.

MALI OWEN (*fel un yn holi "Rhodd Mam"*) : Ydi'ch tad yn grefyddol?

AGNES : Ydi—o ydi—rwy'n ddigon siwr ohono. Chyffyrddodd o â dafn o ddiod erioed.

MALI OWEN (*fel pe wrthi'i hunan*) : Mi fydda 'nhad a f'ewyrth yn dwad adre o'r farchnad o'r dre yn feddw gorn bob nos Sadwrn—(*yn torri i wyllo*)—a hen bobol go lew oedd yr hen bobol. Mae petha wedi newid tipin er hynny, pechoda newydd wedi dwad, a'r hen bechoda ystalwm,—gwenwyn a llid a chelwydd—wedi mynd yn betha i'w canmol.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ELIN WILLIAM (*yn ei chysuro*) : Ia, nain bach, ond rydech chi'n hen wraig go dda yn ol yr hen ffasiwn a'r newydd.

AGNES : Ia, ond rhaid cael gwared o'r hen *superstitions* a'r hen bechoda. Doedd pobol ystalwm ddim yn bobol *nice* iawn.

ELIN WILLIAM : Mae Emrys yn deyd y basa'n well ini fod yn debycach iddyn nhw, ym mhob peth ond i hanwbyodaeth.

MALI OWEN : Lle mae Emrys, tybed ? Oes gen ti damad go flasus yn swper iddo, Elin ?

ROBERT WILLIAM : Mi geith mei lord ddwad â'i swper hefog o gan i fod o'n troi 'i draed mor hwyr. Wn i ddim lle andros y geill o fod yn ymdroi, na wn i byth o'r fan 'ma.

(*Y drws yn agor. EMRYS yn dyfod i mewn. Mae ganddo gôt fawr amdano, a'i cholera wedi ei chodi. Gŵr ieuanc sobr yr olwg, yn siarad yn bwyllog ond yn siriol. Mae ysgafnder ei dad yn amlwg ynddo, a meddwl treiddgar ei fam. Mae'n aros eiliad yn y drws cyn dyfod i mewn i'r gegin.*)

MALI OWEN (*yn fywiog*) : Dyna ti, wir. Tyrd i mewn, y machgen i, ac eistedd yn y fan yma wrth ochor dy nain. Mi wna i le i ti.

EMRYS : O'r gore, nain—ond 'rhoswch chi yn y lle rydech chi. Sut rydech chi heno, Miss Vaughan? Mi fum i acw yn yr Hafod hefo'ch tad drwy'r ddechreunos.

BEDDAU'R PROFFWYDI

AGNES : Rydw i'n reit dda, *thank you*. Wedi bod yn y siop yr ydw i.

ELIN WILLIAM : Mae Miss Vaughan yn mynd i aros i gael tamaid o swper, a rhaid i titha fynd i danfon hi dros y gors. Tyn dy gôt, 'y machgen i.

EMRYS (*yn tynnu ei gôt yn araf, ac yn rhoi dau ffesant ar y bwrdd*) : Adda ag Efa !

ROBERT WILLIAM : Yr argian fawr !

ELIN WILLIAM : Lle cest ti rheina ?

MALI OWEN : Beth sy gen ti, machgen i ?

AGNES : *Brace of pheasants !*

EMRYS : Llonydd i mi gael gair i mewn, neno'r tad. Nid yn aml y bydd y Sgellog Fawr yn gwledda ar fraster y wlad, aie ? Wel, er mwyn i chi glywed y stori i gyd—mi ces nhw fel y cafodd y Swgeier i dir—i cymryd nhw. Yr oeddwn i'n tanio nhbell wrth glawdd y winllan, ac wrth oleu'r fatsian, mi welwn y pâr ifanc ar y clawdd, a chyn y basa hyd yn oed y nhad yn medru deyd " carreg a thwll " mi sylwis fod y ddau yn y mhoced i. Rhaid i chitha gael côt fel hon, nhad ; welsoch chi 'rioed gymaint o hwyl gaech chi hyd y caeau na : mi dalith mam am y *game licence* hefo pres y menyn.

ROBERT WILLIAM : Sut ar wyneb daear y daethon nhw i'r clawdd, tybed ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS : Wn i ddim,—a wae th gen i chwaith. Roedden nhw ar y ffordd fawr, ac mae gen i gystal hawl iddyn nhw a neb arall.

AGNES : Ie, ie,—ond pwy *piau* nhw ? Rhaid cadw'r gydwybod yn lân beth bynnag.

EMRYS : Twt, twt,—cymrwch yr hyn y mae'r duwiau yn i anfon i chi heb holi gormod. Mi wnân ginio fory.

ROBERT WILLIAM : Hy ! cinio wir ! Fasa waeth gen i gau ngheg am y gwynt nag am betha felna. (*Wrth* ELIN.) 'Dydech chi ddim yn paratoi swper i Miss Vaughan, Elin ?

AGNES : Na wir, 'rydw i wedi ymdroi gormod yn barod. Mi fydd *Ma-ma* yn bur anesmwyth am dana i.

ROBERT WILLIAM : Taid annwyl, bedi'r brys ? Dydech chi ddim wedi clywed Emrys yn pregethu eto ar yr hyn mae o'n mynd i neud yn y wlad yma.

AGNES : Rydw i'n gobeithio'n fawr nag ydech chi ddim yn mynd yn *agitor*, Mr. Williams ?

EMRYS : *Agitor* ? Ydw,—os ca i fy nghyfle, mi leiciwn i daro un ergyd neu ddwy dros y werin yma. . . Rhaid i chi f'ergusodi i, Miss Vaughan, —mi fydda i'n i cael nhw fel hyn weithia.

MALI OWEN : Pwy sydd yna ? Clywch !

ROBERT WILLIAM : Neb.

MALI OWEN : Mae'r ci yma'n anesmwyth iawn.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM (*wrth y ci*) : Bedi'r acsus sy arnat ti, yr hen lob gwirion? Clywad ogla'r ddau ffowlyn mae o, mam.

EMRYS : Wel, Miss Vaughan, gan na fedrwch chi ddim aros, mi ddoi hefo chi dros y gors.

MALI OWEN : Mae yna rywbeth yn dwad y tu allan yna.

ROBERT WILLIAM : }
ELIN WILLIAM : } Meddwl yr ydech chi.

EMRYS (*yn troi'r shawl o gwmpas MALI OWEN*) : Mynd i'ch gwely ydi gore i chi, nain bach.

AGNES : Wel dowch ynte, Mr. Williams. *It's getting so very late.*

(EMRYS ac AGNES yn cerdded at y drws, EMRYS yn cario'r fased. Pan ddônt at y drws, dyna guro trwm.)

MALI OWEN : O !

ROBERT WILLIAM : Pwy gaclwm sy'n tyrfu'r adeg yma o'r nos, tybed ?

ELIN WILLIAM : Rhowch y ffesants yna o'r golwg, brysiwch ! (*Llaw EMRYS ar y gliced.*) Rhowch nhw dan y glustog yma. (ROBERT WILLIAM *yn eu rhoi dan y glustog ar y settl.*)

(EMRYS *yn agor.* Y PLISMAN, ac ALEXANDER McLAGAN, *y cipar, yn dyfod i mewn.*)

PLISMAN (*yn llygadu o gwmpas*) : Sut rydech chi yma heno i gyd, deulu diddan ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ALEXANDER McLAGAN : Sit ich chi pawb ?
Sit ma ti, Robert Williams ?

ROBERT WILLIAM : Hel at y Feibl Gymdeithas, myn fend i ! Wyddwn i ddim fod yr un ohonoch chi'n perthyn i'r seiat,—ond steddwch, nen dyn. Cadwch ych hetiau, ddynion. (ALEXANDER yn eistedd ar y gadair y tu ol i'r bwrdd crwn,—y PLISMAN yn nês i'r drws.)

PLISMAN : Foneddigion a boneddigesau, nid hel at y Gymdeithas Feiblau ryden ni'r tro yma,—ond yma ar berwyl y gyfraith ryden ni. Fel hyn y bu pethau—yr oedd y bonheddwr hwn, sef Mr. Alexander Maclagan (mae'n wir ddrwg gennyf nad ydyw ei Gymraeg yn deilyngach o'i gwmni), a minnau wrth ein post heno tuag ugain munud wedi wyth yn gwyllo am *boachers*, ac wedi aros wyth munud wrth fy oriawr

ROBERT WILLIAM : Wats y mae o'n feddwl, Mr. Maclagan.

PLISMAN : Yr oeddwn i yn mynd i ddweyd, Mr. Williams, pan welsoch chi'n dda dorri ar draws fy sgwrs, ini weld dyn tua phum troedfedd deg modfedd o hyd yn dod allan o Winllan y Coetmor ac yn cerdded yn bwyllog tuag atom. Pan welodd ni, trodd yn ei ol, gan daflu rhywbeth ar y clawdd a rhedeg i ffwrdd. Wedi i ni fynd tua'r fan a'r lle, *to wit*, y clawdd, daethom o hyd i *game* wedi ei

BEDDAU'R PROFFWYDI

adael yno. Barnasom yn ddoeth, wedi cydymgyng-hori, adael y *game* yno i edrych a ddeuai yn ol i'w gyrchu. Cyn hir gwelsom rywun yn dod—y cyhuddedig yn ddiameu—a chymherodd arno oleu'i bibell wrth ymyl y *game*, ond pan oeddem ar fynd i afael ynddo, clywsom dwrw ymhen draw'r winllan, ac ergid o ddryll

ALEXANDER McLAGAN : Ti'n missio 'rwan, Roberts, hergid o gwn oedd o,—fi'n nabad *sound* gwn.

PLISMAN : Dryll, machgen i, dryll,—neu yn iaith y werin, gwn. . . . Erbyn ini droi i chwilio am achos yr ergid, yr oedd y *poacher* wedi diflannu'n hollol gyda'r *game*,—ond ar ol dilyn ol ei draed yn y gors y mae'n ddiameu gennym mai i'r tŷ hwn—y Sgellog Fawr—neu i rywle cyfagos yr aeth. Yn awr, yr wyf yn eich tynghedu nad atalioch oddiwrthyf ddim os gwyddoch!

ROBERT WILLIAM : Diar annwyl bach, Robaits, rydech chi'n glasurol ofnatsan las. Rhaid ych bod chi'n ola fel lantern. Ydi'ch llygad chi ar y pulpud, deydwch ?

ALEXANDER McLAGAN : Ia, ond gwelis ti rwbath, Robert Williams ?

ROBERT WILLIAM : Y fi ? Naddo, nen taid annwyl, ddyn glân. Fum i ddim allan ar ol swpera, yn naddo bobol ?

ELIN WILLIAM : Naddo.

BEDDAU'R PROFFWYDI

PLISMAN : Wel, dyna ni wedi colli'n deryn eto, Maclagan. Dowch ar unwaith i chwilio amdano. Nos da, deulu,—roedd yn ddrwg genni'ch trwblo.

EMRYS : Rhoswch funud. Lle'r oeddech chi'n deyd ichi adael y ddau ffesant, Roberts ?

PLISMAN (*yn troi'n ol yn sydyn*) : Gadael beth ddeydsoch chi ?

EMRYS : Wel, y ddau ffesant, siwr—y—y—hynny yw, y gêm. Roedd yno ddau, on'd oedd ?

(*Y PLISMAN a'r CIPAR yn troi ac yn edrych arno.*)

PLISMAN : Pwy ddeydodd wrthyich chi mai dau ffesant oedden nhw ?

EMRYS (*yn gynhyrfus*) : Meddwl ddarum i ych bod chi'n deyd fod yno ddau.

ALEXANDER McLAGAN : Ti gwbod rwbath am fo, Emris Williams ?

EMRYS : Y fi !

PLISMAN : Fuoich chi allan heno ?

EMRYS : Do.

PLISMAN (*yn nesu ato*) : Ym mhle, mor hy a gofyn ?

EMRYS : Dim o'ch busnes chi, Roberts. Ymddygwch fel gŵr bonheddig, neu mi tafla i chi allan. Peidiwch a thorsythu o mlaen i—(*yn rhoi'i fys ar fotwm canol côt y* PLISMAN)—Pah ! Cwrw a gwêr ! Ddyn glân, 'rydech chi'n feddal fel pwdin !

BEDDAU'R PROFFWYDI

ALEXANDER McLAGAN (*yn symud i'r goleu*) :
Lle ti câl baw coch ar esgid ti, Emris Williams ?

ROBERT WILLIAM : 'Run fan a'r lle cawsoch
chi'ch locsyn, ddyliwn i. Fucst ti yn Scotland yn
ddiweddar, Emrys ?

EMRYS : Rydech chi'n methu rhwng dau goch,
nhad. Coch llwynog ydi coch Mr. Maclagan.
Well i chi fynd oddiyma, Mr. Cipar—mae tipin o
frid helgi yn yr hen Bero yma.

PLISMAN (*yn myned i'r gadair y tu ol i'r bwrdd*) :
Mae'n rhaid imi eistedd i gymryd *notes*. Mae mwy
yma nag sy yn y golwg. Yn awr, Mr. Emrys
Williams,—newch chi ddweyd wrthyf beth welsoch
chi pan oeddech chi'n hel y baw coch yna ar ych
esgidia ?—er mwyn helpu gwas y gyfraith, wrth
gwrs.

EMRYS (*yn eistedd ar gongl y bwrdd mawr,—*
y PLISMAN yn troi ato) : Gwna, yn neno'r tad, os
medrwch chi sgrifennu. Mi welis ddau ddyn yn
sefyll fel dau lechgi—un yn las drosto fel pry baw,
lwmp hyll o ddyn tew ffoglyd, ac un arall wrth i
ochor o hefo locsyn coch. Mi feddylis i ar y cynta
mai dau fwgan brain wedi'u codi gan ddyn dall oedd
yno—ond mi sylweddolis yn y diwedd mai plisman
a chipar oedden nhw.

ALEXANDER McLAGAN : Ti treio bod yn *funny*
dog, Mr. Emris Williams. Fi dim werthin. Fi
gneud *note* o'r peth.

BEDDAU'R PROFFWYDI

(ANN yn dyfod i mewn yn ddistaw gyda basged ar ei braich.)

PLISMAN : Gadewch ef i mi, gyfaill Maclagan. Prin rydech chi eto'n feistr ar yr hen Gymraeg. (*Yn rhoi'i law ar y glustog.*) Mae hon ar fy ffordd i. (ELIN WILLIAM yn rhoi'i llaw i'w chadw i lawr.) Maddeuwch i mi, Mrs. Williams. (*Yn codi'r glustog ac yn gweled y ddau ffesant.*) Oho! felly wir! 'Rydw i'n gweld 'rwan. *To be sure*, 'doedd ryfedd wir ych bod chi'n gwbod amdanyn nhw! *Dear, dear!* mi 'roedd y sgweier yn ameu'i denantiaid. (*Yn gafael yn ei het.*) Gellwch chi'i chymryd hi fel ffaith, Mr. Williams, y bydd gwarant yn ych erbyn chi, bore fory. Os ydw i—(*yn torsythu*)—dipin yn raenus fy nghâs mi fedrai ddal *poacher* cystal ag undyn. Hefyd, rhaid imi'ch rhybuddio y bydd popeth a ddywedwch yn cael ei godi i'ch erbyn eto! Dowch, gyfaill Maclagan, ni gawn ni orffen hyn eto! Nos da, deulu, nos da.

ALEXANDER McLAGAN : Whiskers lliw baw, medda ti. Lliw llwnog, medda ti hefyd. Mi câl gweld sut lliw gwyneb ti yn y *court*, Mr. *Poacher*.

EMRYS : Wel, rhag i chi orweithio'r ddau chwarter pen yna sy gynnoch chi ddim pellach, mi ddeyda wrthoch chi mewn ychydig eiriau sut y bu hi. Gweld y ddau dderyn yma ar ochor y clawdd ddarum i wrth ola mhibell, ag mae hawl gan bawb i'r hyn welan nhw ar y ffordd fawr, debig gen i?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM : Oes, debig iawn, wir,—neu mae petha wedi mynd yn od ofnatsan. Nenor Rasmws mawr, os na cheith dyn tlawd godi dau dderyn wedi marw oddiar y clawdd mewn gwlad efengyl, mae hi wedi mynd.

AGNES : Dywedwch y gwir, Mr. Williams. Cyfaddefwch y gwir,—bydd yn haws i chi gael trugaredd.

ELIN WILLIAM : Miss Vaughan ! ydech chi'n meddwl nad ydi Emrys yn deyd y gwir ?

AGNES : Wel, y fo ac Un arall sy'n gwbod hynny.

ELIN WILLIAM : Wel, os nag oes dim ond un heblaw fo'n gwbod—y fi ydi'r un hwnnw. Dydi Emrys ddim wedi gorfod arfer deyd celwydd wrth gribddeilio, fel rhai pobol, Miss Vaughan.

PLISMAN : Peidiwch a chynhennu, wragedd ! Caiff Mr. Williams bob chware teg i ddeyd y gwir wrth yr ustusiaid ddydd Sadwrn, a chaiff sôn faint fynno fo am ymddanghosiad personol swyddogion y gyfraith. Dowch, Maclagan.

ANN (*yn dyfod ymlaen yn wylaidd*) : Rhoswch funud, Mr. Roberts ! . . . Y fi gymrodd y ddau ffesant yna. (*Yn gostwng ei llygaid.*) Rydw i'n dymuno rhoi f'hunan i fyny i'r gyfraith.

PLISMAN : O, aie wir ? Ond sut y medrwch chi gysoni'r ffaith i mi weld dyn yn i cymryd nhw ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ANN : Cariad i mi oedd
o, gwas fferm heb fod ymhell oddiyma,
a mi rhoth nhw i mi gynted ag yr oeddech chi wedi
troi'ch cefn.

ELIN WILLIAM : Ann !

EMRYS : Beth sy arnoch chi, Ann ?

PLISMAN : Lle ar glawdd pella'r Coetmor roedd
y ffesants, meddwch chi ?

ANN : Wrth wrth y
wrth y goeden fala surion 'rydw i'n
cofio'n iawn rwan.

PLISMAN : Nage, ngeneth i,—waeth i chi
beidio,—dim iws yn y byd. Ar y clawdd agosa i'r
adwy las yr oedden nhw.

MALI OWEN (*yn ceisio codi*) : Emrys bach !

ROBERT WILLIAM (*yn ceisio gwrthio rhywbeth
i law'r PLISMAN*) : Am y tro, am y tro !

PLISMAN : Dim iws, Robert William,—dylet-
swydd, dyletswydd. Ncs da. (*Wrth EMRYS.*) Mi
fydda i'n cadw golwg arnoch chi, nes bydd y papur
yn ych llaw chi.

MALI OWEN (*yn cerdded at EMRYS*) : Emrys
bach !

AGNES (*yn symud at y drws*) : Wel, nos da.

EMRYS : Wel, dydi hyn ddim byd—mwy na
dŵr ar gefn chwiaden. Fedrwch chi ddim mynd
adre'ch hun.

BEDDAU'R PROFFWYDI

AGNES : *No, thanks.* Mi af yn iawn fy hunan. Does arnai ddim ofn *poachers* bellach ; mi wn yn lle y mae nhw.

(AGNES yn mynd trwy'r drws ; EMRYS yn syllu ar ei hol. ELIN WILLIAM yn wylo. MALI OWEN â'i llaw ar fraich EMRYS.)

LLEN.

YR AIL ACT.

[Parlwr tŷ capel Siloh, tuag wyth o'r gloch ar noson waith. Yn y cefn, ar y llaw chwith, ffenestr fach heb na gorchudd na dim arall arni. Ychydig yn nês i'r dde na'r canol y mae'r drws sy'n arwain i'r capel,—dyma hefyd y ffordd allan. Ar yr ochr dde, tân mawr, a phump neu chwech o gadeiriau breichiau plaen a chaledion o flaen y tân. I'r chwith iddynt, bwrdd ysgwâr â gorchudd coch arno, ac ar hynny y mae Beibl mawr, llyfr hymnau a llyfrau cyfrifon. Rhwng y bwrdd a'r drws allan, y mae mainc neu ddwy o ffawydd melyn; yn wir, ffawydd melyn yw'r holl goed sydd yma. Ar y pared, astell a thyrrau o lyfrau'r ysgolblant arni—llyfrau gleision mewn amlen bapur, a'r cwbl yn ddrylliog; pentwr o Destamentau a chloch fechan. Ar y mur, lluniau pregethwyr mewn ffrâm fawr dan y teitl "Cenhadon Hedd." Map o wlad Canaan; poster yn hysbysu'r "Athrofa," cyhoeddiad enwadol; a modulator. Yr argraff a roir arnoch gan y cwbl yw rhywbeth rhwng ysgoldy, llys bach yr ustusiaid a waiting-room mewn gorsaf. Lamp fawr yn crogi o'r nen, a maneg wedi ei chlymu ynddi.

BEDDAU'R PROFFWYDI

DAFYDD DAFIS *yn eistedd yn fyfyr gar o flaen y tân. O'r capel daw sôn gwan y dôn olaf cyn gorffen y seiat :—*

Dy dang - ne - fedd ; Dy dang - ne - fedd,
Dy - ro i - ni yn bar - haus.

Y drws allan yn agor, a HUW BENNET yn dyfod i mewn gan sychu ei draed yn ofalus, a chwythu allan ei fochau. Tyn ei het a'i gôt, a chymer bibell glai hir o'r gongl, a'i llenwi â " baco'r achos " sydd ar astell uwchben y tân. Wrth wneuthur hyn, y mae'n siarad â DAFYDD DAFIS.]

HUW BENNET : Hylo ! sut rydech chi heno, Dafydd Dafis ? Ydi'r teulu acw yn weddol gynnoch chi ?

DAFYDD DAFIS : Wel, ydyn, am wn i, ond mae'r wraig acw'n cwyno hefo'r asma yn ofnatsan iawn. Wn i ddim beth i neud,—mae hi'n mygu'n lan.

HUW BENNET : Twt, twt ; aros gormod i mewn rydech chi, yn y twll myglyd acw. Mi fydda i yn synnu atoch chi na fasech chi'n *retirio* bellach, a chitha wedi gwneud cymint o brês. Tasa'r Gelli acw yn talu hanner cystal i mi a'r siop i chi, welsa neb ol yr un o nhraed i yn y tir byth wedyn.

DAFYDD DAFIS : Wyddoch chi ddim amdani hi, Bennet bach,—ddim. Rydech chi'n siarad fel

BEDDAU'R PROFFWYDI

het, ydech byth o'r fan yma. . . . Sut mae nhw yn y Gelli ?

HUW BENNET : Symol iawn yden ni i gyd. Mae Lowri acw yn beichio crio ddydd a nos yn ddidor derfyn ; welis i'r fath beth erioed Does fawr iawn o lun arna inna chwaith.

DAFYDD DAFIS : Tewch, da chi : beth ydi'r mater ? Dydech chi ddim wedi cael colled tua'r Gelli acw ?

HUW BENNET : Hy ! colled wir !—dyna chi bobol y siopa bob amser yr un fath ;—fedrwch chi feddwl am ddim ond colli ac ennill. Wyddoch chi beth. Dafydd Dafis—(*yn codi*)—dydw i'n hitio dim hynna—(*yn clecian ei fysedd*)—faint o golledion gaiff fy mhoced i—does genni ddim plant i boeni yn i cylch—os peidia'r amgylchiadau a brifo nghalon i, a f'ysbryd i. Ryden ni i gyd wedi cael dyrnod go drom, goelia i, bawb yn yr ardal yma.

DAFYDD DAFIS : At beth yr ydech chi'n cyfeirio, Huw Bennet ?

HUW BENNET : Ond wyddoch chi'n iawn gystal a finna i beth yr yden ni fel swyddogion yn cyfarfod yma heno ; dyna'r clwy sydd arna i, os oes arnoch chi eisio gwbod.

DAFYDD DAFIS : Diar annwyl, fydda i byth yn gadael i bethau amherthynasol fel yna y mhoeni

BEDDAU'R PROFFWYDI

i. Mae'n rhaid ini fel swyddogion neud yn dyletswydd, waeth pa mor atgas fo hynny.

HUW BENNET: Nid yr hyn sydd yn mynd i ddigwydd heno,—dydi hynny nag yma nag acw yn y ngolwg i—nid dyna sy'n fy mhoeni i gymint, ond meddwl am y diodde y mae Robert William a'i deulu diniwed wedi gael, a meddwl am Emrys, y creadur gwirion iddo fo. Wyddoch chi be,—rydw i wedi gorfod codi gefn nos, yn methu cysgu gan gwilydd wrth feddwl amdanyn nhw!—y fi, Huw Bennet y Gelli, sy wedi dwyn mwy o ffesants nag a welodd Emrys Williams erioed, a nhraed yn rhydd yn fy nhŷ fy hun, a fy ngherdded yn sicr yn Seion, ag Emrys Williams, un o'r proffwydi hynny fydd yr Arglwydd yn eu gyrru mor anamal, yn y carchar cyffredin (*crescendo*)—yn y jêl fel lleidr, a thac'la'r llys a'r carchar yn hel i hen facha aflan hyd-ddo, —a hynny am ddim, ac i ddim pwrpas. (*Yn cerdded o gwmpas.*) Fyddwch chi'n rhegi weithia, Dafydd Dafis? . . . Na fyddwch o ran hynny, mi wranta . . . ond rydw i newydd ffeindio fod hen eiria ddysgis i'n ifanc yn dwad yn ol i mi— a diolch i Dduw amdanyn nhw hefyd!

DAFYDD DAFIS: Hisht! tewch, tewch, ddyn! Beth tasa rhywun yn eich clywed chi?

HUW BENNET: Waeth gen i, waeth gen i. Beth mae hen deulu gonest yn rhoi'r gair gore i

BEDDAU'R PROFFWYDI

bawb ac yn talu'i ffordd heb fod arnyn nhw ddim i neb yn i haeddu oddiar law y wlad? Rhoi'r mab yn y jêl hefo'r lladron a'r puteiniaid? . . .

(*Drws y capel yn agoryd. Sôn traed rhai yn myned allan, a'r GWEINIDOG, WILLIAM PRICHARD, a MR. HUMPHREYS yr Ysgol yn dyfod i mewn. Pawb yn nodio y naill ar y llall. Distawerwydd. Ochenaid ddistaw. Symud cadair. Trwest traed.*)

AZARIAH EVANS: Welis i monoch chi yn y seiat ers tro, Dafydd Dafis.

DAFYDD DAFIS: Wel, naddo—methu'n glir a gadael y siop. Mae'r hogyn acw mor ddiymddiried, a'r arian mor brin.

AZARIAH EVANS: Lle'r oeddech chi heno, Huw Bennet?

HUW BENNET: Dim blas i ddwad yno, Mr. Evans.

AZARIAH EVANS: Wel, ie; mi allai'ch deall chi'n iawn. Does gen inna fawr iawn o flas ychwaith, ond yr oedd yno fwy nag arfer heno. Mae rhai pobol, os gwelan nhw rywun wedi troi'r drol, yn rhedeg o bob man i gweld hi ar lawr.

MR. HUMPHREYS: Mr. Evans! fyddai hi ddim gwell ini fynd at waith y cyfarfod: mae hi'n mynd yn hwyr, a gore pa gyntaf i neud gwaith diflas, meddai un o awduron y Saeson, "*Do an unpleasant task at once.*"

BEDDAU'R PROFFWYDI

(*Pawb yn eistedd o gwmpas y bwrdd. MR. EVANS â'i gefn i'r ffenestr a MR. HUMPHREYS gyda llyfr cofnodion wrth ei ochr.*)

AZARIAH EVANS (*yn codi'n betrusgar iawn*) : Annwyl frodyr,—prin mae rhaid imi ddeyd hanes yr helynt yma wrthoch chi . . . y—y . . . gwyddoch o i gyd gystal a minna . . . os nad gwell. Wel . . . fel hyn y mae petha . . . rydech chi'n gweld . . . mae'r ddisgyblaeth eglwysig, os ydech chi'n deall,—hynny yw, os ydŵ i'n gneud y mater yn glir i chwi . . . rhaid i chi gofio fod y ddisgyblaeth, yn gofyn ini—mewn ffordd o siarad—(*yn torri i lawr*)—Mr. Humphreys busnes i ddyn fel chi ydi hwn,—gwnewch chi o. (*Yn eistedd i lawr.*)

HUW BENNET (*yng nghlust y gweinidog*) : Mi gneith yr hen sgwl o wrth fodd i galon . . . mêl ar i fysedd o ydi peth fel hyn.

MR. HUMPHREYS (*mewn llais cras awdurdodol, ac yn siarad trwy'i drwyn*) : Wel, gan fod Mr. Evans wedi bod mor garedig a rhoi'r mater yn fy llaw i, mi wna i fy ngore i gyfleu'r peth o'ch blaen yn hollol gydwybodol heb droi i'r dde na'r aswy. Gwyddoch fod rheolau'n disgyblaeth ni yma yn yn rhwymo ni i ddysgyblu unrhyw un a dorro gyfraith y wlad. Yn awr, dyma'r cwestiwn sydd i'w benderfynu—beth yw torri cyfraith gwlad, ac yn

BEDDAU'R PROFFWYDI

ail, pwy sydd i ddweyd fod y gyfraith wedi ei thorri ? Ai'r eglwys sydd i ddweyd ynte'r llys gwladol ? Wel, does ond un ateb i'r cwestiwn yna—y llys gwladol wrth gwrs, gan mai cyfraith wladol ydi'r gyfraith. Yn awr, y mae Emrys Williams, y Sgellog, wedi ei gael yn euog o dorri'r gyfraith, ac wedi ei roi am dair wythnos yng ngharchar Tre'r-caerau. (HUW BENNET yn tynnu ei ffunen : y GWEINIDOG yn rhoi ei ben i lawr.) Felly, yr wyf fi'n dal ei bod yn unol â'n cyfansoddiad ni fel enwad ag eglwys i dorri o allan o freintiau'r eglwys. Ni fydd unrhyw gyngor arall a rown i'r eglwys yn unol â'n hamodau a'n haddunedau fel blaenoriaid.

(Yn eistedd i lawr, gan edrych am gymeradwyaeth o'r naill i'r llall,—dyn yn leicio clywed sôn ei lais ei hun.)

HUW BENNET : Rhoswch chi funud, Mr. Humphreys. Nid rhoi'r mater yn "gydwybodol," chwedl chithau, ydi peth fel yna, ond rhoi'r ochor ddua yn erbyn Emrys. Mae yna ochor arall i'r cwestiwn. Hwyrach na fedra i mo'i brofi o, ond rydw i'n dweyd wrthoch chi—*(yn taro'r bwrdd)*—fod Emrys y Sgellog wedi diodde anghyfiawnder mellti-gedig. Beth sydd i ddisgwyl pan fo dim ond meistriaid tir ar y fainc ? Wel, rwan, fy syniad i am yr eglwys ydi y dylai hi unioni pob cam y mae'r wladwriaeth yn i wneud, ac nid i ddyblu o. . . .

BEDDAU'R PROFFWYDI

MR. HUMPHREYS : Twt, twt ! ych mympwy chi'ch hun ydi peth felna. Wyddoch chi ddim fel mae John Stuart Mill yn deyd. . . .

HUW BENNET : Stiwart be ddeydsoch chi ?

MR. HUMPHREYS : Stuart Mill, yr athronydd enwog . . .

HUW BENNET : Beth waeth gen i beth mae'r Sais y felltith yn i ddeyd . . . heblaw mod i'n gwybod i fod o, pwy bynnag oedd o neu ydi o, ar ochr y sgweier, fel pob Sais,—a phob sgwl hefyd o ran hynny. Wyddoch chi be ! does gen i ddim cydwybod o gwbl fel sydd gynnoch chi. . . . Dydi'r Gelli acw, frodyr, ddim yn godro digon o wartheg i fforddio cadw cydwybod fel un Mr. Humphreys, ond mae gen innau yn fy nghyfansoddiad rywbeth sy'n gneud yn lle cydwybod—rywbeth sy'n brifo, brifo, ddydd a nos, pan fydd cam yn cael ei wneud â'r gwan. Wel, heb siarad ychwaneg na hollti blew, rydw i, fel un, yn cynnig yn bod ni'n gadael y mater yn y fan y mae o . . . a chyn hir, mi rydw i yn mynd i hel enwau i gael anerchiad a thysteb iddo fo. . . .

WILLIAM PRICHARD : Oes rhywun wedi bod yn siarad hefog o ?

AZARIAH EVANS : Do, mi fum i, ond soniais i'air am i helbul o, wrth gwrs. Fedrwn i ddim, wir. Roedd y syniad fod un o ddynion ifanc goleua'r wlad

BEDDAU'R PROFFWYDI

yma—dyn wedi cael manteision addysg penna'r oes, dyn sydd yn mynd i'n helpu ni i ymladd yn erbyn anwybodaeth . . . adrygioni; . . . roedd meddwl fod hogyn fel yna wedi bod yn y carchar cyffredin yn Nhre'rcaerau yn y ngyrru i o ngho.

DAFYDD DAFIS : Ie,—'r "ffordd galed," chwedl yr hen lyfr—"ffordd y troseddwr sydd galed."

HUW BENNET : Hogyn wedi ei fagu yn annwyl ac yn ofalus gan i dad a'i fam a'i nain. . . .
(*Yn torri i wylo.*)

MR. HUMPHREYS : Twt, twt! *Sentiment* noeth—dydech chi'n ddim ond lwmp o deimlad, Huw Bennet.

WILLIAM PRICHARD : Eh? Ydi o'n ymddangos yn edifeiriol, eh? Eh?

MR. HUMPHREYS : Nag ydi. Mae o mor ffroenuchel ag erioed.

HUW BENNET : Beth sydd eisio iddo fo fod yn edifeiriol? Wnaeth yr hogyn ddim drwg.

AZARIAH EVANS : Naddo.

WILLIAM PRICHARD (*hen ddyn bach cnechlyd, teneu*) : Wel, chi wyddoch i gyd na fydda i byth yn gwthio fy syniadau ar neb, ond rhaid i mi ddeyd y mod i'n cydweld â Mr. Humphreys yma, ynte? "Balchter o flaen cwymp," ynte? meddai'r hen bobol. Eh? Felly y gwelis i hi erioed. Roedd

BEDDAU'R PROFFWYDI

o'n deyd wrthon ni yn yn gwyneba yn bod ni'n gul ac yn rhagfarnllyd, am yn bod ni'n gwrthod rhuthro i neud y petha mawr yr oedd o am neud. Ond dyna *my lord* wedi bod yn y jêl,—a ninnau'n dal yn ein parch o hyd.

HUW BENNET : Parch gythraul!—dyna chi yn y ngyrru i i dyngu mewn tŷ capel. Dyma'n ffordd ni yng Nghymru bob amser, ffordd William Prichard y London. Os bydd dyn i fyny, pob help iddo i fynd yn uwch, i edrych a gawn ni rywbeth gynno fo ; os bydd y dyn ar lawr, sathrwch, sathrwch ar i ben o ! (*Yn gafael yn ei het.*) Waeth imi fynd adre ddim,—mi wela mai i ddiarddel o newch chi.

DAFYDD DAFIS : Rhoswch funud, Huw Bennet, peidiwch a bod mor frysio, a da chitha, cedwch tipyn gwell rheolaeth ar ych tafod. Mae pobol y Sgellog yn gwsmeriaid da yn y siop acw, a mae nhw'n rhoi'n haelionus at yr achos hefyd,—fynnwn i mo'u digio nhw er dim.

HUW BENNET : Hy ! mi wela y gall Demas helpu'r diniwed weithia,—ond i chi ddeall cwlwm i bwrs o.

AZARIAH EVANS : Mae'n hawdd iawn canfod nad ydech chi'n unfryd ar y cwestiwn yma. Os ydw i'n deall yn iawn, dydi Huw Bennet yn meddwl dim llai o Emrys wedi iddo fod yn y carchar. Mae Mr.

BEDDAU'R PROFFWYDI

Humphreys am fynd ar ol i gydwybod, a waeth peidio siarad dim pellach hefo fo. . . .

MR. HUMPHREYS : Na waeth ddim.

AZARIAH EVANS : Ac wrth gwrs, mae'i gydwybod o ar ochr y sgweir a'r ustusiaid : mae William Prichard yn gweld cyfle i dorri tipyn ar grib annuwiol y balch—a dydi Dafydd Dafis ddim wedi gorffen adio'r sym eto. Felly, ryden ni'n rhannol iawn ar y mater.

MR. HUMPHREYS : Rhannol? Beth ydi'ch barn gydwybodol chi, Mr. Evans?

AZARIAH EVANS : Mi ddeyda wrthoch chi mor blaen ag y medra i. Rydw i'n mynd yn hen ddyn, ag mae nyddiau gore i wedi pasio ers tro. Mi fum i'n arfer meddwl, fel pob pregethwr arall, mai'r gwaith gore fedrwn ni wneud i Grist a ngwlad oedd byw yn ddiargyhoedd oddiwrth y byd, a rhoi esiampl o fywyd pur a glân a di-fai i'r wlad. . . . Mi dreies i wneud hynny—chi wyddoch na fum i fawr o bregethwr erioed . . . ond rydw inna'n dechreu blino ar fyw fel deryn mewn *cage*.

MR. HUMPHREYS : Rydw i'n gobeithio nad ydech chi wedi newid ych barn ar bynciau mor hanfodol.

AZARIAH EVANS : Wel do, welwch chi, yr ydwi i wedi wedi newid tipyn ar fy marn ynnddiweddar yma. (*Yn codi ac yn cerdded at y tân.*) Pa gamp ydi byw yn barchus i mi? Wyddoch chi i bod hi'n

BEDDAU'R PROFFWYDI

haws imi fyw yn sobor ac yn barchus na byw fel arall? . . . Aha! . . . Pe baswn i yn oed Emrys Williams, ac yn gwybod yr hyn wn i heddyw, nid byw yn barchus a phlesio mywpwyon hen ferched a ffyliaid fyddai ngwaith i, yr wy'n siwr. Frodyr annwyl, fum i erioed yng ngharchar fel Emrys, a wn i ddim a ddylwn i fod yn neilltuol o falch o hynny ai peidio. Mae William Prichard yn taflu mai dyn wedi methu ydi Emrys . . . nage wir, ond i chi roi i gyfle iddo, a does gan neb i gyfle yng Nghymru os na bo fo'n aelod crefyddol. . . . Ond dyma i chi hen ddyn wedi methu . . . (*Yn pwyntio ato'i hun.*)

HUW BENNET: Tewch a chyboli wir, Mr. Evans. . . . Llawer gwaith y deydodd Emrys wrtha i mai chi roes fwya o help iddo o bawb.

MR. HUMPHREYS (*yn wardlyd*): Cyhuddiad go ddifrifol yn erbyn gweinidog yr efengyl ydi deyd i fod o'n helpu pobol i garchar!

HUW BENNET: Tomos Wmffra, mae dy galon di wedi pydru oddi mewn iti ers blynyddoedd . . . pah: Dafydd Dafis, ar ych pleidlais chi y mae pethau'n dibynnu; er mwyn hen bobol garedig y Sgellog, newch chi bleidleisio i gadw Emrys ym mreintiau'r Eglwys?

WILLIAM PRICHARD: Wyddwn i ddim fod cael aelodaeth yn yr Eglwys yn gymint yn i olwg o. Pa wahaniaeth wna hynny iddo fo?

BEDDAU'R PROFFWYDI

HUW BENNET: Hyn. Mae'r hogyn druon wedi torri i galon, ag mae i fam o yn deyd mai disgyn i iselder a dibrisio'i hunan neith o os digwydd rhywbeth yn bellach iddo fo. Tasan ni'n medru cael yr eglwys i ddangos i chydymdeimlad, mi fasa hynny yn i roi o ar i draed eto.

DAFYDD DAFIS: Wel, does genni ddim yn erbyn yr hogyn. . . .

(Curo wrth y drws. ROBERT ac ELIN WILLIAM yn dyfod i mewn yn gynhyrfus, a ROBERT WILLIAM yn rhuthro ymlaen at y bwrdd.)

ROBERT WILLIAM: Maddeuwch imi am ddwad yma—fydda i byth yn trwblo llawer arnoch chi, ond rydw i wedi perswadio Emrys, ar ol llawer iawn o grefu, i ddwad yma i ddeyd gair o'i blaid ei hun, os ceith o.

AZARIAH EVANS: Caiff, wrth gwrs, Robert William. Ewch i eiste munud, ych dau, i'r capel tra byddwn ni'n gorffen rhyw bwnc bach sy o dan sylw.

ROBERT WILLIAM: O gymdogion annwyl! ffrinds, ffrinds! Nid dwad yma i ofyn cyfiawnder rydw i, ond i ofyn trugaredd: Nid dwad yma i amddiffyn Emrys, ond i ofyn am gymwynas ar ych llaw chi. Huw Bennet, dwad wrthyn nhw na fu nag na grwgnach erioed i neb yn y Sgellog: dwad wrthyn nhw mai fi, a nhad o mlaen i, sydd wedi

BEDDAU'R PROFFWYDI

codi gefn nos i nol y doctor at bawb yn y pentre :
dwad wrthyn nhw na fu neb erioed ar y ngofyn i a
mynd adre'n waglaw . . .

ELIN WILLIAM : A deydwch chitha, Mr. Evans,
yr hyn wyddoch chi am Emrys a'i weledigaethau—
rydech chi'n i ddeall o. . . . O, fedrwch chi
feddwl, frodyr, am i ddwylo o, dwylo cryfion i
wneud petha, a medrus i lunio byd newydd, fedrwch
chi feddwl amdanyn nhw'n pigo ocwm ? . . .
neu'r meddyliau fu'n ceisio cynllunio Cymru newydd
yn hedeg yn wyllt hyd y wlad, a'r meddyliwr i hun
rhwng pedwar mur carchar y sir . . . A !
(*Yn torri i wylo.*)

HUW BENNET : Peidiwch a styrbio'ch hunain,
wir, cyn bo raid, gymdogion. Ewch i'r capel am
funud, da chitha. (*Yn agor drws y capel. Y ddau yn
myned allan i'r capel. Wrth y lleill.*) Rydech
chi i gyd yn gweld sut mae petha. Pa raid sydd
arna i i siarad dim mwy ? Mi alla inna ddeyd fel
Mr. Evans—mi a fum ieuanc, ac yr wyf yn awr yn
hen—ond welis i mo'r cyfiawn na'i blant yn cardota'u
bara, naddo wir, nag yn cardota trugaredd ychwaith.
Dafydd Dafis, ydech chi'n fodlon i neud fel yr ydw
i yn gofyn ? Os ydech chi, ni fyddwn yn dri yn
erbyn dau.

DAFYDD DAFIS : Waeth gen i, waeth gen i—
ond peidiwch rhoi'r pwysa i gyd arna i.

BEDDAU'R PROFFWYDI

(*Y drws allan yn agoryd, a JOHN VAUGHAN yr Hafod yn dyfod i mewn gydag AGNES.*)

HUW BENNET : Dowch i mewn, Mr. Vaughan, a chitha, Miss Vaughan. Dyma ddau, mi wranta, sydd o blaid Emrys, pe basa gennyn nhw fôt . . . ag mi fydd gan Mr. Vaughan fôt yng nghyfarfod y swyddogion cyn hir, mi wranta.

VAUGHAN : Eistedd yn y fan yna, Agnes. . . . Esgusodwch fi am dorri ar ych cyngor chi,—mae genni neges arbennig i'w rhoi i chi.

HUW BENNET : I bwy ?

VAUGHAN : I chi fel swyddogion, a mae'n dda iawn genni fy mod i wedi medru'ch dal chi cyn i chi fynd adre. Mi wela mai trin achos mab y Sgellog yr ydech chi,—ag rydw i'n deall hefyd fod Huw Bennet, fel arfer, yn cymryd gormod yn ganiataol.

WILLIAM PRICHARD : Ie, mab y Sgellog sy dan sylw, hi-hi ! Beth sydd gynnoch chi i ddeyd amdano fo, Mr. Vaughan ?

VAUGHAN (*yn dyfod at y bwrdd*) : Wel, mi fu'r sgweier acw heddiw am oria, fel bydd o'n arfer bob wythnos,—chi wyddoch yn bod ni'n hen ffrindia, a mi ddeydodd i fod o wedi penderfynu lladd dau beth sy'n uchel i penna yn yr ardal yma,—sef *poachio*, ac yn fwy na dim, y syniada gwylltion

BEDDAU'R PROFFWYDI

newyddion y mae *agitators* a phobol benboeth yn i hau hyd y wlad yma. Dyna'i ddyletswydd o i Dduw a dyn, medda fo. . . .

HUW BENNET : Y syrffed rhagrithiol,—beth mae dyn fel y fo yn sôn am ddyletswydd?—y burgun sala i gymeriad yn y wlad yma i gyd . . .

VAUGHAN : Rhoswch chi funud, Huw Bennet, mi fydd genni damaid i chitha hefyd toc. Rwan am yr Emrys yna,—mae arna i eisio gwbod beth ydech chi am neud â fo ; mi gewch weld fod y peth yn bwysig . . .

(*Y drws yn agoryd yn araf. EMRYS yn sefyll wrth y drws, yn syn ac yn welw, tra fo VAUGHAN yn siarad, fel dyn yn cerdded yn ei gwsg. Nis oes neb wedi ei weled eto.*)

Yn awr, Dafydd Dafis, yn lle y bydd y Plas yn prynu'r *groceries* i gyd ?

DAFYDD DAFIS : Wel, yn y siop acw bron i gyd.

VAUGHAN : Pwy fydd yn gwneud dillad pobol y Plas, William Pritchard ?

WILLIAM PRICHARD : Y ni yn y London House acw bob amser : wyddon ni'n iawn faint o *badding* i roi ar i sgwydda fo, a'i dad o o'i flaen, hi-hi !

HUW BENNET : Ydech chi'n mynd yn ocsiwniar yn ych hen ddyddiau, Mr. Vaughan ? . . .

(*Yn troi ac yn gweled EMRYS.*) Hylo ! Emrys

BEDDAU'R PROFFWYDI

y machgen i ; tyrd i mewn. Mae'n dda iawn genni dy weld di. (EMRYS yn nodio o bell ar MISS VAUGHAN, ac yn dyfod ymlaen at y bwrdd.)

EMRYS : Oddiwrth Herod at Caiaphas.

WILLIAM PRICHARD : Eh ? beth ydech chi'n ddeyd ?

EMRYS : Oddiwrth Herod at Caiaphas. Mi cafwyd fi'n euog yn llys Herod, ondô ? Eh, Mr. Humphreys ? rydech chi'n ddyn doeth ac yn cofio petha. Tair wythnos a llafur caled, ynte ?

MR. HUMPHREYS : Faswn i ddim yn ymffrostio un y peth, y machgen i, taswn i chi.

EMRYS : Ha, ha ! ymffrostio, medda fo !
. . . Roeddwn i'n meddwl gofyn i chi beth fyddan nhw'n neud hefo ocwm, Mr. Humphreys. Rydw i yn ych cofio chi'n deyd wrthon ni yn yr ysgol ystalwm, ond fedrwn i yn fy myw gofio, pan oeddwn i yn i bigo fo i beth roedd o'n dda. . . . Ond hitiwch befo, ewch chi'n mlaen hefo'r Sanhedrim, o henuriaid y bobl !

(Cynnwrf wrth y drws. ANN yn rhuthro i mewn yn wyllt.)

ANN (yn rhedeg at MR. EVANS) : Rydw i wedi clywed y cwbl o'r hanes . . . morwyn y Plas wedi deyd wrtha i . . . mae'r sgweier wedi gyrru Mr. Vaughan yma i geisio gynnoch chi

BEDDAU'R PROFFWYDI

orffen dinistr Emrys . . . mae o wedi penderfynu i gael o dan draed. Mr. Evans, rydw i'n erfyn arnoch chi fadda iddo fo, a pheidio a gwrando ar y sgweier. . . . Wyr Emrys ddim y mod i wedi dwad yma. . . . (*yn troi yn sydyn ac yn gweld* EMRYS : *yn rhoi'i dweylo ar ei hwyneb.*)

EMRYS : Ann, Ann, beth ydi'r mater arnoch chi ? I beth rydech chi'n cynhyrfu'ch hun fel hyn ? Well i chi fynd adra . . . fedrwch chi neud dim. . . .

AZARIAH EVANS : Ewch drwy'r drws yna i'r capel, ngeneth i, mae'ch mistar a'ch meistres yna yn barod.

(ANN *yn myned, â'i dweylo ar ei hwyneb.*)

VAUGHAN : Wel, ar ol y *pantomime* yna, hwyrach y cai fynd ymlaen rwan . . . (*Wrth* EMRYS.) Rhoswch yma i glywed—does arna i mo'ch ofn chi. (EMRYS *yn eistedd i lawr.*)

EMRYS : Rydech chi'n mynd yn foel ofnatsan, Mr. Vaughan. Mae arna i ofn nad ydi *port wine* y Plas ddim yn digymod â'ch natur chi. . . . Y *gout* ddaw nesa, gewch chi weld.

VAUGHAN : Hitia di befo fy moelni i . . . dei di byth yn foel os torri'r gwallt yn fyrr sy'n cadw'r moelni draw . . . *y county crop* wyddost, ngwas i. Wel, dyma ddeydoddy sgweier, y bydd o'n disgwyl i Eglwys Siloh wneud ei dyletswydd yn y

BEDDAU'R PROFFWYDI

mater, sef helpu'r wlad a'r ustusiaid i weinyddu'r gyfraith . . . mae o'n dibynnu arnoch chi i gyd.

EMRYS (*yn cyfrif wrtho'i hun*): Un, dau . . . dau ddyn, ag un, dau . . . dau siopwr . . . a sgwl. Wel, mae cael dau ddyn allan o bump yn o dda.

HUW BENNET: Taw, Emrys, hefo dy lol. (*Wrth VAUGHAN.*) Dydw i ddim yn ych deall chi. Beth ydech chi'n feddwl? . . . Siaradwch ych meddwl mor blaen a dasech chi o flaen tân y *Red Lion*.

VAUGHAN (*yn anwybyddu HUW BENNET*): Yn awr, y mae'r sgweier heb dalu ei addewid eto

· · · · ·
AZARIAH EVANS: Pa addewid?

VAUGHAN: O, dydech chi ddim yn gwybod? (*Wrth AGNES.*) Mi ddylet fod wedi deyd wrtho, Agnes. . . . Mi addawodd y sgweier i Agnes gan punt i dynnu'r ddyled sy ar y capel yma i lawr, . . . ac mae arna i eisio i chi gofio i fod o heb i thalu hi eto . . . ond i fod o'n fodlon gneud yfory nesa.

DAFYDD DAFIS: Da iawn, wir,—campus, Miss Vaughan.

AZARIAH EVANS: Pa bryd y cawsoch chi'r addewid?

BEDDAU'R PROFFWYDI

AGNES : O rhyw wythnos neu ddwy'n ol.

HUW BENNET : Oedd Emrys yn y carchar yr amser honno.

AGNES : Oedd, am wn i—ond dydw i ddim yn siwr.

HUW BENNET : Wel, wir : feddylis i rioed i bod hi'n bosib cynnig breib i Eglwys Dduw mor blaen a dirodres a hynna.

EMRYS : *Dear me*,—mae'r pris yn codi yn y farchnad ond ydi o, Mr. Vaughan? Deg darn ar hugain oedd pris y Meistr ystalwm . . . yrwan, dyma'r gwas bach yn werth cant! Does gan y sgweier fawr syniad am brynu a gwerthu, nag oes, Dafydd Dafis?

DAFYDD DAFIS : Wn i ddim am hynny, ond dyma'r newydd gora gês i fel Trysorydd yr Eglwys yma ers talwm iawn. Rhoswch chi, Mr. Humphreys, dyma ni'n medru tynnu'r ddyled i lawr i drichant, ynte?

MR. HUMPHREYS : Ie—a thair punt yn y flwyddyn yn llai o log.

VAUGHAN : Peth arall hefyd, Huw Bennet. Mae o am edrych y bydd i holl ffermydd o yn cael i gosod i bobol onest y pen tymor nesa . . . pobol yn fodlon gneud eu dyletswydd.

HUW BENNET : O aie, bygwth fy nhroi i o'r Gelli? . . . Ewch i ddeyd wrth y burgun

BEDDAU'R PROFFWYDI

aflan y caiff o fynd â'i ffermydd gydag o i golledigaeth
. . . (*yn cerdded o gwmpas*) . . . gwas y
neidr !

VAUGHAN (*yn paratoi i fyned allan*) : Wel,
gnewch chi fel fynnoch chi—dyna fi wedi deyd sut
y mae pethau.

DAFYDD DAFIS : Wel, mae'n amlwg na fedr
yr un ohonon ni fforddio ffraeo hefo'r gŵr bonheddig
. . . Rydw i'n cynnig yn bod ni . . .

EMRYS (*yn codi'n wyllt*) : Rhoswch ! (*Distaw-
rwydd—yn newid ei dôn.*) Fydda ddim gwell i
chi fargeinio tipin bach, i edrych gewch chi
ddeugant ?

WILLIAM PRICHARD : Ydech chi'n barod i
syrthio ar ych bai, eh ? os buasen ni'n madda ?

EMRYS : Pwy ydech chi yn olygu i fadda i mi ?
ag am beth ?

HUW BENNET : Yr eglwys sydd i fadda iti,
machgen i . . . paid a bod mor wyllt a
diamynedd, Emrys bach.

EMRYS : Madda beth ?

DAFYDD DAFIS : Y carchar a'r gwarth, wrth
gwrs.

EMRYS : Dafydd Dafis . . . faint o dywod
sydd mewn pwys o siwgrwr coch ? Ar ol i chi ateb
y cwestiwn, mi gewch ddeyd wrtha i faint o grefydd
sydd mewn *cheque* canpunt.

BEDDAU'R PROFFWYDI

DAFYDD DAFIS : Dyna hi—fel yr oeddwn i'n ofni . . . mor galed ag erioed !

EMRYS : Ydw,—a chewch chi byth edifeirwch am hyn oddiwrtha i—does gen i ddim i edifarhau o'i blegid. Mi fasa fy meddwl i o Eglwys Siloh yn codi tipin . . . tasa chi'n medru pwyso gwarth carchar fel pwyso siwgwr, Dafydd Dafis . . . a chitha'n medru gneud i'ch cydwybod wneud tro caredig ambell dro, Mr. Humphreys . . . Ond i beth yr ydw i'n siarad . . . rydech chi i gyd wedi gneud ych meddwl i fyny. Huw Bennet, rydech chi'n dal i gredu yna i, yn dydech chi, 'r hen law ?

HUW BENNET : Ydw, machgen i.

EMRYS : Wel, gobeithio y cewch chi fyw'n hir i wasanaethu yn . . . y sêd fawr yma. Os gwelwch chi rywrai yn dechra breuddwydio, rhybuddiwch nhw'n erbyn cymryd ffesants oddiar y wal. Os na wrandawan nhw arnoch chi, deydwch wrthyn nhw mai *Warder Rhif 17* ydi'r caredica o ddigon, ond deall i ffordd o.

MR. HUMPHREYS : Mae'n mynd yn hwyr. . . . rydw i'n eilio cynnig Dafydd Dafis i ofyn i'r eglwys ddisgyblu . . .

(ANN yn rhuthro i mewn : ELIN a ROBERT WILLIAM y tu ol iddi.)

BEDDAU'R PROFFWYDI

ANN : Fedra i ddim peidio a chlywed. . . .
O cymrwch bwyll. Edrychwch arno fo yn y fan
yna . . . ydi o'n debig i ddyn drwg ?

EMRYS : Tewch, tewch, Ann. Fedrwch chi
neud dim i f'helpu i !

ANN : Mr. Evans, mi wyddoch chi amdana i a
nheulu yn ddigon da—mi gês i fy magu'n dda ac
yn annwyl nes i nhad gael ei ladd yn y chwarel—
chwarel y sgweier,—nes i mam druan fynd dan
draed y ddiod, a ngadael innau'n waeth nag amddifad.
Mr. Vaughan, wyddoch chi lle dysgodd mam yfed ?

VAUGHAN : Twt-twt—dos adre ; rwyd ti'n
mynd yr un ffordd a dy fam, faswn i'n meddwl
. . . .

ANN : Mi ddeyda wrthoch chi, Mr. Vaughan.
. . . Wrth fynd i'r Plas i wnio, pan oedd hi'n
wraig weddw . . . ydech chi'n cofio'r sgweier
a chitha'n cael hwyl wrth i gneud hi'n feddw a'i
gweld hi'n ymlusgo adre drwy'r eira ? y greadures
dlawd ! Dyna un enaid yrsoch chi a'r sgweier i
uffern o'ch blaen . . . ac o ! dyma chi yn
helpu'r sgweier yn i waith aflan i yrru enaid arall
ar goll eto. . . . Na wnewch byth, mi rhwystra
i chi, . . . yn enw'r nefoedd !

WILLIAM PRICHARD : Taw ! siarad yn
barchus wrth dy well, y ffolog iti.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ANN : Mi fum i ar fy ngliniau o flaen y ngwell—o flaen y sgweier—fis yn ol yn erfyn arno drugarhau wrth Emrys—do, yn y lludw a'r clai o'i flaen o—yn erfyn arno fadda i Emrys, er fy mwyn i, er mwyn merch y ddynes feddw fydda'r sgweier a Mr. Vaughan yn i chael i'r tŷ i neud sport iddyn nhw, pan fydda'r llwynogodyn brin,—ac mi troes fi dros y drws a bygwth y cŵn ar f'ol i. Rydw i'n dod yma eto ar yr un neges, at flaenoriaid y bobl—y chi, William Prichard, dorrodd mam o'r seiat . . .

WILLIAM PRICHARD : Ie, ond rwyf ti'n bryderus iawn ynghylch mab dy feistr, y ngeneth i. Beth ydi'r mater, eh? Mae na ryw reswm, hi, hi!

ANN : Oes : rydw i wedi byw a meddwl llawer. Dwy ar hugain fydda i G'lan Gaea nesa, ond rydw i wedi byw llawer mwy na hynny mewn cyni, a diodde, a gwarth. Mi wn i beth ydi colli pob gola, a thywyllu pob ffordd : mi wn i am lyn cysgod angau a'r rhai sy'n cerdded drwyddo ; mi wn i beth ydi gweiddi'r nos am y bore, a'r bore am y nos—am hynny, rydw i'n erfyn arnoch chi gadw un arall . . . rhag mynd at y mwyafrif.

WILLIAM PRICHARD : Wel, mae'n rhaid i mi fynd adre, beth bynnag. Mae o wedi i gynnig a'i eilio yn bod ni'n diarddel Emrys Williams. Os ydi rhywun yn meddwl fod gan y sgweier rywbeth i neud â'r peth, mae o'n methu, a chan fod teulu'r

BEDDAU'R PROFFWYDI

Sgellog wedi mynnu dwad yma i gael brifo'u teimlada, arnyn nhw mae'r bai. Rydw i'n gofyn i chi roi'r peth i bleidlais, Mr. Evans.

AZARIAH EVANS: Wel, pawb o blaid? (WILLIAM PRICHARD, DAFYDD DAFIS. a MR. HUMPHREYS yn codi dwylo.) Yn erbyn? (HUW BENNET a'r GWEINIDOG yn codi dwylo.) Wel, dyna hi felly . . . Mae o i'w ddiarddel; does gen i ddim mwy i ddeyd . . . heblaw hyn. Yr ydw i'n dymuno ymddiswyddo o'r eglwys yma, ac yn mynd oddiyma . . .

WILLIAM PRICHARD: I ble, hi-hi?

AZARIAH EVANS: I ail ddechra hefo pobol y tafarna a'r cloddia,—y publicanod a'r pechaduriaid . . . ond Duw a f'helpo i, . . . rydw i'n rhy hen, rhy hen. . . Wel, nos da. . . (Wrth EMRYS.) Mi ddo i i'r Sgellog yfory.

HUW BENNET: Rydw inna'n dwad hefo chi—at y publicanod. (*Yn gafael yn ei het ac yn myned allan.*)

(*Pawb yn symud allan. EMRYS yn cysuro'i rieni, ac yn gwithio ANN allan gyda hwy.*)

EMRYS: Miss Vaughan!

AGNES: Wel? (*Yn dyfod yn ol.*)

EMRYS: Yr ydech chi'n cofio beth ddeydis i wrthoch chi fis neu ddau yn ol,—a be ddywedsoch chitha wrtha inna. Wel, rydech chi wedi bod yn.

BEDDAU'R PROFFWYDI

bur ddieithr i mi byth er hynny—a mae hynny'n ddigon naturiol. Hwyrach ych bod chi'n synnu fy mod i'n cymryd yr holl gywilydd sydd wedi disgyn arna i mor ddidaro, a modi'n medru cadw nhempar hefo'ch tad. . . . Wel, mae pob angor wedi gollwng ond un, ond mae hwnnw'n dal hyd yn hyn. Y chi fedr ddweyd, a neb arall, sut y mae hi i fod.

AGNES : Dydw i ddim yn ych deall chi, Mr. Williams. Mae'n rhaid imi fynd,—mae *Pa-pha* 'n disgwyl.

EMRYS : Ydech chi'n cofio bethddeydis i wrthy ch chi'r noson cyn i'r plisman ddwad i'r Sgellog ?

AGNES : Ydw.

EMRYS : A'r hyn ddeyds och chitha wrtha inna ?

AGNES : Ydw.

EMRYS : Wel ?

AGNES : Mae popeth fel yna drosodd, *wrth gwrs*. Mi ddylech chi wybod hynny . . . (*yn cychwyn allan*) . . . pan aethoch chi i'r carchar. (*Exit.*) (EMRYS yn eistedd i lawr yn sydyn. ANN yn dyfod yn ol.)

ANN : Emrys !

EMRYS : Wel ?

ANN : Dydech chi ddim am adael i hyn wneud dim gwahaniaeth i chi, ydech chi ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS (*yn taro'r bwrdd*) : Ydw ! Os ydyn nhw am y ngyrru i'r cythraul . . . mi ä !

ANN (*yn gafael yn ei law*) : Dydw i ddim ond morwyn ych tad a'ch mam . . . merch dynes feddw . . . wedi fy magu ar y plwy . . . ond gwrandewch air genni !


EMRYS : Fedrwch chi ddeyd wrtha i be fedra i neud eto !

ANN (*yn betrusgar*) : Na fedra.

EMRYS : Wel, mi fedra i. . . . (*Yn myned allan.*) . . . Ha, ha ! . . . (*I'w glywed y tu allan.*) . . . Ha, ha !

(ANN *yn rhoi'i phen ar y bwrdd ac yn wylo.*)

LLEN.



Y DRYDEDD ACT.

[Ystafell fwyta gyffredin y tloty yn Nhrefraerau. Y mae'r muriau i gyd wedi eu gwyngalchu; ar y pared pellaf, y mae dwy ffenestr hollol foel, a barrau trymion ar eu traws. Ar y llaw chwith, y mae'r drws sy'n arwain i mewn i ystafelloedd eraill y tloty, ac ar y dde, y drws sy'n arwain i'r neuadd nesaf allan. Ychydig yn nês i'r ffenestri na chanol yr ystafell, y mae bwrdd mawr heb un gorchudd arno, a'r tu ol iddo, ac o'i flaen, fainc cyn foled a'r bwrdd. Y mae'r tân ar y llaw dde, a llyfr neu ddau ar yr astell uwch ei ben. Ar y chwith i'r bwrdd, y mae cadair neu ddwy a bwrdd llai, gyda lliain arno. Dim arall o gwbl yn yr ystafell.

Y FORWYN yn dyfod i mewn i osod pethau yn eu lle ar gyfer pryd.

Y MEISTR yn dyfod i mewn ar ei hol o'r drws arall. Dyn buan, awdurdodol. Pe buasai wedi ei eni mewn cylchoedd uwch mewn cymdeithas, buasai'n swyddog ym myddin Prydain, neu, efallai, yn cadw ysgol i blant gwŷr bonheddig. Gan nad oedd ganddo ddim uwch dylanwad o'i blaid na'i fod wedi priodi morwyn clarc y Gwarcheidwaid, mae'n debig mai

BEDDAU'R PROFFWYDI

Meistr y Tloty a fydd ar hyd ei oes. Nid yw ei swydd wedi gwella dim arno.

Y MEISTR yn myned ac yn rhoi Beibl mawr ar y bwrdd, ac yn brysur hefo'r llyfr cyfrifon. Y FORWYN yn gorffen ei gwaith ac yn myned allan. Cloch yn canu. Sôn traed. Drws y llaw dde yn agor, a'r dynion yn dyfod i mewn : y merched wedyn o ddrws y llaw chwith, ac yn cymryd eu lle o gwmpas y bwrdd yn ddistaw—y cwbl mewn dillad wedi eu golchi ganwaith. Yn eu plith, ANN, â'i chefn atom, â'i llaw dan ei phen.]

MEISTR (*yn taro'r bwrdd â'i law*) : Rwan, reit ddistaw a rheolaidd : mae arna i eisio i chi gofio fod y *guardians* yn dwad yma heddiw. . . .

TWM HUWS : Pwy ddeydsoch chi, syr ?

MEISTR : Y *guardians*—y bobol sy'n edrych ar ych hola chi.

TWM HUWS : Wel, wel : wyddwn i ddim fod neb yn edrych ar yn hola ni, yn y fan yma—dyna newydd i mi. Mwya fo dyn byw, mwya wêl o, a mwya glyw.

MEISTR : Sut rwyd ti'n meddwl ych bod chi i gyd yn cael bwyd ynte, os nad oes rhywun i edrych ar ych hola chi ?

TWM HUWS : Wel, y Llywodraeth, debig iawn, sy'n i anfon o, fel y manna yn yr anialwch. Mr.

BEDDAU'R PROFFWYDI

Gladstone a Mr. Disraeli sy'n cofio am y bobol anlwcus weithia—ac yn gyrru bwyd ini yma . . . i'n cosbi ni.

MEISTR : Cosbi ! Cosbi ! ! Beth ydi dy feddwl di, dwad ?

TWM HUWS : Wel, gneud ini fyw yn erbyn yn hewyllys, dyna'n cosb ni, a'r pechod wnaethon ni oedd bod yn anlwcus. O ran hynny, dyna ydî pechod pawb, ynte Mistar ? Onibai am y trethi a'r arian sy'n yn cadw ni'n fyw, mi fasan ni wedi marw i gyd ers blynyddoedd, ond fasan ni, bobol ? . . . Ond chawn ni ddim. . . Os treiwch chi farw, mae nhw'n ych gyrru chi i'r jêl, ac wedyn i'r workws—a dyna lle'r ydyn ni wedi marw i'r byd ag i ni'n hunain. . . . “Lle mae Twm Huws druan ?” medda rhywun. . . . “Yn y workws,” medda pobol, fel tasa'n nhw'n sôn am rywun yn uffern. . . . Does na ddim ond dau yn gwbod lle'r ydyn ni'n iawn.

UN ARALL O'R TLODION : Pa ddau ?

TWM HUWS : Duw . . . a'r diawl. Felly y bydda i yn i gweld hi, beth bynnag.

MEISTR : O, felly wir. Beth wnaeth i ti ddwad yma, os gwn i, Mr. Athronydd ?

TWM HUWS : O—drifftio . . . a charedi-grwydd pobol barchus. (*Wrtho'i hun.*) Mi fuo gen i wraig a thri o blant, a thŷ a gardd, a Mari a

BEDDAU'R PROFFWYDI

Jane Liza a Twm bach, a gwraig a thŷ a gardd
. . . do, rywdro. Lle mae nhw heno? Mistar,
lle mae nhw heno?

MEISTR: Ie—lle mae nhw heno? da y gelli di
ofyn.

TWM HUWS: Mae'r wraig a'r plant . . .
mewn lle na chewch chi byth fynd yno, mistar
. . . Chewch chi byth weld Twm bach. Mi
werthodd y *guardians* y tŷ a'r ardd a'r mochyn i
dalw costar claddu a bil y doctor . . . a
nghadw inna yn fy salwch pan gollis i fy ngwaith.
Caredigrwydd pobol, fel y deydys i, gyrrodd fi yma.
Fedra pobol grefyddol, garedig y pentre ddim diodda
gweld hen ddyn afiach, hanner call, oedd wedi bod
yn rhywun parchus rywdro, yn dihoeni o flaen i
llygaid nhw . . . a mi ddarun y ngyrru i i'r
workws. . . . Roedd i clonna nhw'n rhy
garedig i feddwl i ddal o yn y pentre o flaen i golwg
bob dydd. . . . A mi bwriwyd fi i'r môr o
ango hwnnw sy'r tu ol i eneidia pobol barchus
. . . sef y workws.

MEISTR: Siarad ti'n fwy parchus, ac yn
debycach i Gristion, y ngwas i, neu mi gei di fod
heb dy faco am wythnos. . . .

TWM HUWS: O'r gora, syr . . . dim
ods. Rydw i'n gorfod gneud heb lawer o betha, a
mi wna heb hwnnw hefyd gydag amynedd. (*Wrtho'i
hun.*) Mi fydda Jane Liza yn dwad ag owns o faco

BEDDAU'R PROFFWYDI

neis imi o'r dre ystalwm . . . a Twm bach yn i ddwyn o o'r papur. . . . Wel, wel, mae petha wedi newid, ond ydyn nhw ?

(*Drws o'r neuadd yn agoryd, a'r PORTHOR yn ymddangos.*)

PORTHOR : *Casual*, syr, wrth y drws.

MEISTR : O, Cymro ynte Sais ?

PORTHOR : Cymro, syr.

MEISTR : Wyt ti wedi i holi o ? Ydi o'n lân, a sobor ?

PORTHOR : Wel, mae o'n eitha sobor, ond wn i ddim beth am i lân o . . . ond does fawr air i gael gynno fo . . . un anodd i drin, mi dyffeia i o, syr.

MEISTR : Hitia befo, mi trinia i o. Ydi o'n dallt be raid iddo fod neud cyn mynd odd ma ?

PORTHOR : Ydi, syr.

MEISTR : Rho fo yn y *Casual Ward* nes ca i ddwad i weld o . . . nage, aros !—tyrd â fo yma, iddo fo gael bwyd gynta.

(*PORTHOR yn myned allan.*)

TWM HUWS (*wrth un arall o'r tlodion*) : Fyddan nhw'n golchi rhai'n dwad yma fel hyn am noson, dwad ?

UN ARALL O'R TLODION : Byddan, debig iawn—a golchfa iawn fyddan nhw'n gael hefyd. Y tro cynta y dois i yma, fel *casual* y dois i . . . a wedyn, mi ddrifftis fel titha.

BEDDAU'R PROFFWYDI

TWM HUWS : Mi fasa rhywun yn meddwl i bod nhw, y bobol fawr,—y *guardians*—yn lân ofnatsan wrth i gweld nhw mor byrticlar hefo ni.

UN ARALL O'R TLODION : Dydyn nhw ddim, ar fend i—ddim chwarter cyn laned a gweithiwr.
. . . Mi wn i am be rydw i'n siarad. Ond fel yna mae hi o hyd . . . petha i'w gwthio ar y bobol dlodion ydi'r rhinwedda mawr i gyd—glendid a dirwest a phetha felly.

(Y PORTHOR yn agor y drws, ac EMRYS yn dyfod i mewn. Mae ei farf wedi hanner tyfu, a'i ddillad yn gareiau amdano. Nid yw'n edrych i'r dde nag i'r aswy, ond yn cerdded ymlaen â'i lygaid i lawer, a phawb ond ANN yn codi'u golwg i edrych arno.)

MEISTR (yn agor ei lyfr) : Wel, beth ydi d'enw di ?

EMRYS : Emrys Williams.

MEISTR : Ymha blwy y cest ti d'eni ?

EMRYS : Llanfesach.

MEISTR : Beth sy arnat ti eisio yma ?

EMRYS (yn edrych i fyny'n sydyn) : O . . . suite of rooms, a brecwast yn y gwely, a galw arna i y dydd ar ol fory. Faint o bris fyddwch chi'n godi ? . . . o dim ods, dim ods !

MEISTR : O ! rwy'ti'n meddwl dy hunan yn ddoniol ofnatsan, ond wyt ti ? Mi gei di weld faint fydd y pris eto. O ble doist ti ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS : O Drefeglwys . . . o'r *Royal Hotel* yno.

MEISTR : Felly,—y jêl neu'r tloty. Lle rwy'ti'n mynd fory ?

EMRYS : I'r cythraul.

MEISTR : Eh ?

EMRYS : I'r cythraul . . . rydw i ar y ffordd ers talwm . . . ond heb gyrraedd eto'n llwyr, ond . . .

“ 'Rwy'n gweld y bryniau pell
Yn araf agoshau.”

Mae pen y daith yn ymyl.

MEISTR : Taw, neu mi rhoi di ar fara a dŵr—y ffŵl anystyriol iti. Eistedd yn y fan yna, a bwyta, . . . a phaid ti a gadael (*marcato*) . . . imi . . . glywed . . . dim . . . o . . . dy sŵn di.

(Y MEISTR yn myned allan. Y FORWYN yn dyfod i mewn, ac yn rhoi bwyd o flaen EMRYS.)

TWM HUWS (*wrth* EMRYS) : Rydech chi wedi dwad i le da, ar fengoch i. . . Rhag ofn na wyddoch chi ddim . . . potes ydi hwnna. Mae nhw'n berwi'r un ceiliog bob nos i neud o ers pan ydw i yma—ers pedair blynedd . . . a phedwar ugain . . . a chant !

EMRYS (*yn edrych yn graff arno, ac yn amneidio*) : O, mi fum i ar i salach o. Rydw i wedi bod yn bwyta *skilly*.

BEDDAU'R PROFFWYDI

TWM HUWS : Wel, wel, frawd bach ! Rydech chitha yn un o'r rhai anlwcus felly. Lle buoch chi yn y jêl, mor hy a gofyn ?

EMRYS : Yma—yn Nhre'rcaerau.

TWM HUWS : Dwgyd ?

EMRYS : Nage.

TWM HUWS : Curo plisman ?

EMRYS : Nage—breuddwydio . . . proffwydo . . . a thorri'r tresi, bwrw'r cylchau. . . . Fedra i ddim bwyta hwn . . . a chês i ddim tamaid er y bore.

TWM HUWS : Druan ohonoch chi ! (*Yn sibrwed yn ddistaw.*) Mae gen i damaid o gig yn y mhoced . . . cymrwch o, cymrwch o.

EMRYS : Diolch, frawd bach. Rydech chi wedi methu cyrraedd pen ych siwrnai, mi wela.

TWM HUWS : Pen y siwrna ?

EMRYS : Ie . . . y cythraul. Dyna lle'r ydw i'n mynd. Rydw i bron wedi cyrraedd.

TWM HUWS : Rydw i yn deall. . . . Beth ydi'ch amcan chi ?

EMRYS : Mae arna i eisio cledu f'hunan ddigon . . . (*yn codi ar ei draed*) . . . i ladd dau neu dri o ddynion . . . i gyrru nhw—(*yn pwyntio i'r llawr*)—i lawr o mlaen. Mi fyddai'n fodlon wedyn.

TWM HUWS : Pwy sy arnoch chi eisio'i ladd frawd ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS (*yn tynnu papur o'i logell*) : Dyma nhw —rydw i wedi sgrifennu 'i henwa nhw rhag imi anghofio. William Prichard, London House, Llanfesach, merchant tailor ; Thomas Humphreys, Llanfesach, schoolmaster ; John Vaughan, yr Hafod, Llanddyfi, gentleman farmer ; David Davies

UN ARALL O'R TLODION : Hist ! Hist !
Dyma'r *guardians* yn dwad.

(*Y drws ar y chwith yn agor.* WILLIAM PRICHARD a MR. VAUGHAN *yn dyfod i mewn gyda'r MEISTR.*)

MEISTR : Ie, foneddigion,—dyma nhw'r teulu—y nheulu i fydda i yn i galw nhw. (*Wrth y tlodion.*) Hitiwch befo, *boys bach* . . . ewch chi'n mlaen hefo'ch bwyd.

WILLIAM PRICHARD : O ! dyma nhw'r bobol sy'n codi'r trethi i fyny, ynte ? Eh ? Braster y wlad iddyn nhw ; mi dyffeia nhw, eh ?

VAUGHAN (*wrth y MEISTR a'r MATRON, sy'n eistedd gyda'r merched*) : Gellwch chi fynd allan rwan, a'n gadael ni yma i holi tipin ar y bobol yma. (*Y ddau yn myned allan.*) Sut na fasan nhw yn gneud rhywbeth ? Tybed y byddan nhw'n cael byd da fel hyn bob amser ? . . . Byth o'r fan yma, William Prichard, mae hi'n talu'n well i fod yn y workws nag yn byw yn onest. (*Yn cerdded o gwmpas ac yn dyfod at EMRYS.*) Sut na fasan nhw yn

BEDDAU'R PROFFWYDI

golchi un fel hyn? (*Yn gafael yng nghudyn ei wallt ac yn ei godi. EMRYS yn codi'n sydyn, ac yn cilio oddiwerthynt gan syllu'n graff.*)

EMRYS : Ho ! . . . Hylo ! Dyma'r diwedd yn gynt nag y disgwyliais i. Rydw i wedi bod yn chwilio amdano'ch chi'ch dau ers tro,—o do !—a dyma ngyrfa i ar ben. Hen frawd—(*yn curo TWM HUWS ar ei gefn*)—mi a ymdrechais ymdrech deg . . . mi a redais . . . a dyma fi . . . (*Yn eistedd i lawr â'i law ar ei wyneb.*)

WILLIAM PRICHARD (*yn cilio yn ofnus y tu ol i MR. VAUGHAN*) : Eh ? Pwy ydi hwn, eh ? Rydw i wedi i weld o'r blaen yn rhywle, eh ?

VAUGHAN (*yn pwyntio at EMRYS*) : Ewch â'r dyn yna allan ; mae o'n wallco. Pwy ydi o ?

EMRYS (*yn codi'n sydyn, ac yn cerdded at y drws, ac yn ei gloi : yna'n cloi'r drws arall : wedyn yn tynnu pistol allan*) : Eisteddwch i lawr.

WILLIAM PRICHARD : Beth ydi'r mater, syr ? Wneis i erioed ddim i chi, w'r da.

EMRYS (*yn darllen o'r papur*) : William Prichard, London House, Llanfesach, merchant tailor ; John Vaughan, yr Hafod, Llanddyfi, gentleman farmer. . . . Ie, dyma nhw. . . .

WILLIAM PRICHARD : Pwy ydi o ? (*Yn dechreu llefain.*)

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS : William Prichard a John Vaughan, edrychwch yn myw fy llygaid i.

ANN (*yn rhuthro o'r gongl, ac EMRYS am funud yn rhoi'i law i lawr, ac yn edrych yn syn arni*) : Emrys !

EMRYS : Ann !

ANN : O Emrys, beth ydech chi'n neud ?

EMRYS : Sefwch yn y fan yna . . . mi ga i siarad hefo chi eto.

ANN (*yn dyfod ato*) : Emrys !

EMRYS (*yn awdurdodol*) : Eisteddwch i lawr, fel rydw i'n deyd wrthoch chi. (*Wrth y tlodion.*) Ewch i'r gongol yna i gyd : wna i ddim i chi, druain bach. (*Y tlodion i gyd yn myned i'r gongl mewn dychryn.*) Yn awr, dyma fi. William Prichard, ydech chi'n fy nghofio i ?

WILLIAM PRICHARD : Ydw, . . . syr. Mr. Emrys Williams.

EMRYS : A chitha, Mr. Vaughan ?

VAUGHAN : Ydw—rydw inna yn ych adnabod chi rwan.

EMRYS : Wel, y fi ydi'r barnwr heno, a chitha ydi'r carcharorion. Sefwch i fyny yna.

(WILLIAM PRICHARD a JOHN VAUGHAN *yn sefyll i fyny.*)

EMRYS (*yn eistedd i lawr y tu ol i'r bwrdd*) : Dacw'r jury, y tlodion acw. . . . Yn awr,

BEDDAU'R PROFFWYDI

William Prichard, rydech chi dan y cyhuddiad o fod o wirfodd calon wedi difetha fy mywyd i—wedi fy lladd i. Beth ydi'ch amddiffyniad chi. Atebwch ar unwaith.

WILLIAM PRICHARD (*yn crynu*) : Eh? . . .
Eh? . . . Dim ond dyletswydd.

EMRYS (*yn codi'r pistol*) : Y gwir . . .
neu . . .

WILLIAM PRICHARD : Arhoswch, syr. I gyfadde'r gwir i chi, syr—cenfigen oedd gen i atoch chi, os oes arnoch chi eisio'r gwir.

EMRYS (*yn synnu*) : Eh? Beth ddywedsoch chi?

WILLIAM PRICHARD : Cenfigen.

EMRYS : Pam? Beth oedd yr achos?

WILLIAM PRICHARD : Wel, syr . . . (*yn memian . . .*)

EMRYS : Siaradwch yn uwch.

WILLIAM PRICHARD : Mi wyddoch ych bod chi wedi curo John ymhob peth, ag yr oeddwn i wedi crafu a chynhilo pob dima i wneud gŵr bonheddig o John, . . . ac yr oeddwn i wedi methu.

EMRYS (*yn rhoi'r pistol i lawr*) : O! rydw i'n gweld. Lle mae John?

WILLIAM PRICHARD : Mae o wedi priodi.

EMRYS : Lle mae o? Beth mae o'n wneud?

BEDDAU'R PROFFWYDI

WILLIAM PRICHARD (*yn torri i wylo*) : Dim syr,—dim ond gwario pob dima yn y *Red Lion*. Mae gynno fo bedwar o blant, a finna'n gorfod i cadw nhw i gyd—mae'r dafarn yn mynd â phob dima mae o'n ennill . . . Rydw i wedi gwario'r cwbul hefo fo, ac wedi f'ysigo am byth. Mi fum i'n gobeithio . . .

EMRYS : O ! mi fuoch chitha'n gobeithio, felly. (*Yn ysgrifennu rhywbeth ar bapur.*) Rhaid imi gofio hyn. Gobeithio beth ?

WILLIAM PRICHARD : Y basa John yn gredud imi ac i'r wlad—ond mae o'n sotyn diobaith.

EMRYS : Diobaith . . .

TWM HUWS : Beddau'r blys !

EMRYS : Cibroth-Hatafah—beddau'r blys. Mae'r wlad yma'n llawn o feddau, William Prichard,—beddau'r proffwydi. . . .

WILLIAM PRICHARD : A chyfyd o byth, syr, byth.

EMRYS : Yn awr—ar eich llw—codwch ych llaw—ar ych llw o flaen Duw—nid Duw'r sêf fawr ond y Duw hwnnw sy'n edrych ar ol y rhain. (*Yn pwyntio at y tlodion.*) Cenfigen ynteu dyletswydd a'ch cymhellodd chi i fy niarddel i ?

WILLIAM PRICHARD : Rydw i'n syrthio ar fy mai o flaen Duw—cenfigen, a dim arall.

BEDDAU'R PROFFWYDI

(EMRYS â'i ddwylo ar ei wyneb, a'i ben ar y bwrdd. Curo mawr wrth y drws. EMRYS yn neidio i fyny, ac yn troi'r pistol at JOHN VAUGHAN.)

EMRYS: Ewch at y drws; agorwch; a dywedwch wrthyn nhw am fynd i ffwrdd a'n gadael ni'n llonydd. Dywedwch gelwydd i'w twyllo yn ych dull digymar ych hun. Cofiwch . . . mae angeu yn ych ymyl.

(JOHN VAUGHAN yn agor y drws yn gilagored.)

VAUGHAN: Hym! Gadewch ini am funud yma, Mr. Parry, . . . mi fasen ni . . . hy . . .

EMRYS: Yn hoffi cael llonydd.

VAUGHAN: Yn hoffi cael llonydd.

EMRYS: Am ryw chwarter awr.

VAUGHAN: Am ryw chwarter awr.

EMRYS: I holi tipin ar y bobol yma.

VAUGHAN: I holi tipin ar y bobol yma.

EMRYS: Ag i weinyddu barn. (*Gyda phwyslais.*)

VAUGHAN: Ag i weinyddu barn.

MEISTR: O! popeth yn iawn, Mr. Vaughan. Methu deall yr oedden ni pam roedd y drws wedi'i gloi.

EMRYS: Caewch y drws. (JOHN VAUGHAN yn ei gau.) Clowch o. (JOHN VAUGHAN yn ei gloi.) Safwch wrth y bar, ych dau. (*Wrth y tlodion.*) Foneddigion a boneddigesau, y mae'r cyhuddedig

BEDDAU'R PROFFWYDI

William Prichard, yn pledio cenfigen yn esgus. Oes yma rywun i ddweyd gair o'i blaid, neu i'w erbyn?

(ANN yn dyfod ymlaen.)

EMRYS : Ych enw?

ANN : Ann.

EMRYS : Gwaith?

ANN : Dim—yn y tloty.

EMRYS : Dywedwch ar f'ol i. “ Rwy'n mynd i ddweyd y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir.”

ANN : Rwy'n mynd i ddweyd y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir. . . . Roeddwn i'n nabod i dad o . . . bu farw'n hen ŵr. Dyna oedd *mainspring* i fywyd ynta, cenfigen. Roedd o'n ddyn caredig at bawb, ond at bobol oedd yn uwch neu'n well nag o . . . Chafodd William Prichard ddysgu dim arall erioed. Y nefoedd fawr, Emrys, dydech chi ddim yn deall? Chwythodd yr un chwa o'r awelon iachus ar enaid William Prichard erioed, i yrru'r cymylau i ffwrdd. Doedd o'r un o'r etholedigion . . . un o'r rhai hynny sy'n eistedd yng nglyn cysgod angeu, heb weld y gola mawr. . . . Ddaeth yr efengyl erioed i wlad o . . .

EMRYS : Ann, ewch i'ch lle . . . diolch i chi. Doeddwn i mo'ch nabod chi o'r blaen, mi

BEDDAU'R PROFFWYDI

wela ; rydech chi wedi cael mwy o ysgol na mi.
William Prichard, ewch acw . . . at y tlodion
ereill !

(WILLIAM PRICHARD *yn myned i'r gongl at y
tlodion.*)

EMRYS : Yn awr, John Vaughan, beth oedd
ych rhan chi yn y ngwarth i ?

VAUGHAN : Doedd gen i ran yn y byd !

EMRYS : O'r gore. (*Yn codi'r pistol.*)

VAUGHAN : Arhoswch, Mr. Williams. Mi
ddeyda i.

EMRYS : Ie—mae'n well i chi.

VAUGHAN : Y sgweier wnaeth imi fynd at y
blaenoriaid yn Siloh, i'ch cael chi o'r seiat. . . .

EMRYS : Ie, ond doedd arnoch chi ddim eisio
hynny'ch hun ?

VAUGHAN : Nag oedd, ar fy ngwir.

EMRYS : O : *snobbery*, taeogrwydd, gwaseidd-
dra at y sgweier oedd yn ych cymell chi felly ?

VAUGHAN : Nage, nid hynny chwaith. . . .
Roedd y sgweier wedi rhoi pedwar cant o bunnau'n
fenthig i mi. . . .

EMRYS : Oho !—pedwar cant . . . i beth ?

VAUGHAN : I dalu'r diffig yn y nghyfrifon i fel
trysorydd y Clwb . . . yr oeddwn i wedi
gwario arian nad oedd yn perthyn i mi.

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS : Ann ! sefwch yma. (*ANN yn dyfod ymlaen.*) Ydi hyn yn wir ?

ANN : Ydi. Mi glywis y mam yn dweyd lawer gwaith. Yr oedd y sgweier wedi gwneud Mr. Vaughan yn gi bach iddo, i wneud popeth,—i redeg ag i gario, i gyfarth ag i frathu. Chafodd dynoliaeth John Vaughan ddim cyfle i dyfu—roedd hi wedi i chrybachu o'i ienctid.

EMRYS : Ho ! felly wir. . . . Wel, John Vaughan, steddwch ar lawr wrth draed yr hen ŵr acw. (*JOHN VAUGHAN yn eistedd.*) Rydw i'n deall yn awr am y tro cynta,—druan ohonoch chi'ch dau. Rydech chi wedi colli llyw ych llong, ag yr ydech chi ar drugaredd yr un gwynt a'm chwythodd inna ar y creigia. Doedd gynnoch chi ddim help, debig,—ysbryd gwenwyn o uffern yn gyrru un, canlyniadau hen bechod yn gyrru'r llall. Codwch ych dau, a dowch allan yma. (*Y ddau yn dyfod ymlaen.*) Rydw i'n madda i chi . . . o, na ! nid am y mod i'n faddeugar, chwaith . . . ond rydw i'n deall ac yn tosturio wrthoch chi'ch dau . . . ond mae arna i ofn nag oes dim workws i rai fel chi. . . . Ewch mewn heddwch. Rydw i'n gofyn un peth fel addewid gynnoch chi cyn ych gollwng chi . . . peidio gyrru'r plisman na neb arall ar f'ol am chwarter awr . . . mae arna i

BEDDAU'R PROFFWYDI

eisio hynny o amser i ail-wneud y byd . . . a mi fyddai'n barod wedyn.

WILLIAM PRICHARD : Rydw i'n addo, machgen i . . . mae'r gwenwyn oedd gen i atoch chi wedi darfod . . .

JOHN VAUGHAN : A finnau hefyd . . .

(Pawb yn myned allan yn araf. TWM HUWS yn aros ar ol eiliad, ac wrth basio yn troi ato.)

TWM HUWS : Mi gollis wraig a phlant, a thŷ a gardd, a dyma fi yn y workws, . . . ond chollis i mo f'enaid, y machgen i. Pa leshad i ddyn os deall ef bopeth . . . a cholli i enaid ei hun ?

EMRYS : Beth ydi'ch meddwl chi, frawd ?

TWM HUWS : Cymrwch ofal . . . byddwch yn gapten ar ych llong, beth bynnag . . . pa un bynnag ai yn y porthladd ai yn nannedd y storm y bo . . . ydech chi'n deall ?

EMRYS : Ydw—rydw i yn deall . . . ond dydi'r llong ddim yn werth i chadw . . . mae'r llygod mawr wedi gadael hi i gyd.

(EMRYS yn cerdded o gwmpas, yn gafael yn y pistol, ac yn ei roi wrth ei ben : yn ei daflu i lawr, ac yn ei godi drachefn. Drws yn agor. ANN yn rhuthro i mewn, ac yn taro'r pistol i lawr.)

ANN : Emrys ! Eisteddwch i lawr,—a deydwch ych hanes . . . deydwch y breuddwyd, ag

BEDDAU'R PROFFWYDI

hwyrach y medra i i esbonio fo i chi. . . . Os mynnwch chi farw yn y diwedd, mi fydda i farw hefo chi.

EMRYS : Ann, dydw i ddim yn ych deall chi'n iawn . . . mi ddylwn fod wedi treio nghynt, ac hwyrach y buasai hi'n well arna i. Beth sydd arnoch chi eisio hefo mi ?

ANN : Codi a byw !

EMRYS : Codi a byw ! Codi a byw ! Wyddoch chi fy hanes i yn ystod y pedair blynedd dwytha ? Wel, mi ddeyda i wrthoch chi. Mi eis i'r jêl yn ddiniwed, fel y gwyddoch chi—ac wedi dwad allan mi gollis y mharch. Mi bwriwyd fi o'r seiat, a dydw i ddim yn ddigon o ffwl nag ydw i'n gwbod be di hynny. Doeddwn i ddim yn mynd i aros ar drugaredd fy nhad a mam, a'u tynnu nhw i'r llaid ar f'ol, . . . a mi benderfynis fynd i Canada i fod o olwg Cymru a Chymraeg, a chapel a sgweier am byth. Doedd gen i ddim arian . . . ag er mwyn talu'r *passage*, mi ddygis ddeg-punt o dŷ yn sir Gaer—ty sgweir fel yn sgweier ni,—a doedd hynny yn ddim ar y nghydwibod i . . . mi wyddwn y mod i'n gwneud gwasanaeth i'r wlad drwy'i dwyn nhw. Ond mi daliwyd fi ym Montreal, ag mi ddois yn ol yma . . . am ddeunaw mis o lafur caled yng ngharchar Caer. Wel, dyma fi, Ann, cyfaill lladron a phuteiniaid, *jail-bird*, dyn.

BEDDAU'R PROFFWYDI

wedi byw yn y baw ! Ann, rydech chi'n ddigon call i wybod nag oes dim esboniad arall ar y mater . . . dyma'r unig ffordd. (*Yn codi'r pistol i fyny.*)

ANN : Ie, dyma'r unig ffordd . . . (*yn cipio'r pistol*) . . . ond y fi'n gynta.

EMRYS : Na, na, Ann annwyl, . . . gadewch i mi glywed rhywbeth mwy gynnoch chwi. Pam rydech chi'n poeni cymint o fy achos i ?

ANN : Wel, waeth i mi ddeyd bellach . . . rydech chi'n ddall iawn. Faint o bobol, meddwch chi, sy'n dal i ymddiried ynoch chi ?

EMRYS : A ! dyna hi ! Faint ? . . . Debig gen i fod fy nhad a mam yn dal i ngharu i o hyd . . . druain ohonyn nhw . . . ond ymddiried ? Nag oes neb.

ANN : Oes.

EMRYS : Nag oes.

ANN : Oes, un.

EMRYS : Pwy ydi o ?

ANN : Y fi—dae waeth am hynny. Ond dydw i fawr credud i neb. Mae rhyw ginc yna i ; rhyw dro yn y natur i. Mi roes marw mam a'ch anffawd chitha rywbeth yn y nghalon i, sydd wedi ngyrru i yma ac acw ar draws y cefnfor, . . . ond mae un peth wedi aros.

EMRYS : Beth ydi hwnnw ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ANN : Wel, rydw i'n ddigon digwilidd i ddeyd . . . y nghariad i atoch chi, Emrys. Dydi hwnnw ddim llai na'r diwrnod pan ddaethoch chi adre o'r coleg, hefoch cenhadaeth fawr i werin Cymru . . . na, mae o'n fwy !

EMRYS (*yn gafael yn ei llaw*) : Druan ohonoch chi, Ann ! Dydech chi ddim yn gwbod beth fum i yn i wneud. . . . Gai ddeyd wrthoch chi ?

ANN : Na—does dim eisio, a waeth gen i chwaith. (*EMRYS yn cerdded o gwmpas.*)

EMRYS : Wel, beth fydda ora i wneud ? (*Yn gafael yn y pistol.*)

ANN : Treio un fordaith ar yr hen gefnfor eto.

EMRYS : Sut y medrwn i ?

ANN : Gyda'n gilydd—mi ddoi i hefoch chi, os ca i.

EMRYS : Glywsoch chi fi'n deyd i'r lle rydw i'n mynd ?

ANN : Do—i'r cythraul. Mi ddoi hefoch chi.

EMRYS : Dyna hi eto—rydech chi—a finna hefyd—yn methu. Rydw i'n *failure* ymhob peth. Rydw i wedi methu mynd i'r nefoedd ers tro . . . mi gwelsoch fi'n methu mynd i'r cythraul gynna . . . pan faddeuais i William Prichard a Mr. Vaughan. Fedrai neud dim. . . . Mae Duw a'r cythraul wedi ngwrthod i.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ANN : Ddaru chi erioed feddwl mai wedi bod yn cerdded y gors gyntaf—Cors Anobaith—yn nhaith y pererin yr ydech chi yn ystod y pedair blynedd yma ? . . . dysgu'r ffordd ?

EMRYS : Naddo, wir.

ANN : Gaiff Cristiana a Christian ddringo o'r gors hefo'i gilydd y tro yma ?

EMRYS (*yn chwervthin*) : Ha, ha ! rydech chi wedi dysgu donioldeb yn rhywle. Beth ydi'r cam nesa meddwch chi ?

ANN : Hwn ! (*Yn taflu'r pistol drwy'r ffenestr.*)

EMRYS : Beth wedyn ?

ANN : Rywbeth fynnoch—ond adawai i monoch chi byth eto. Mi ddoi hefo'ch chi'n forwyn i lanhau'ch sgidia chi, os na chymrwch fi yn wraig . . . a chymrwch chi mohonai, mi wn, wedi clywed f'hanes i, a sut y dois i i'r workws yma.

EMRYS : Ydi o'n ddrwg ?

ANN : Ydi.

EMRYS : Drwg iawn ?

ANN : Ydi, drwg iawn.

EMRYS : Bendigedig !—gore'n y byd . . . ond Ann ?

(*Yn rhoi'i law ar ei hysgwydd.*)

ANN : Wel ?

EMRYS : Mi gewch i ddeyd o wrtha i . . . ar ol ini adael y gors . . . pan fydd y pererinion

BEDDAU'R PROFFWYDI

yn eistedd dan y palmwydd. Hyd hynny, peidiwch a sôn. . . . Wel, wir, dyma garu go od, goelia i?

ANN: Rhyfedd iawn . . . Emrys bach, ond dydi hyn ddim wrth y rhyfeddodau ddaw eto. (EMRYS *yn nesu ati.*) Na! ddim eto . . . wrth ddrws y jêl pan ddowch chi allan. Mae nhw'n siwr o'ch gyrru chi yno am hyn. Mi fyddai yno'n disgwyl.

(*Curo wrth y drws.* ROBERTS *y plisman yn dod i mewn.*)

ROBERTS: Wel, wel. Job ffaidd ydi job plisman, Mr. Williams. Mae arna'i ofn bod rhaid imi fynd â chi eto.

EMRYS: Rhaid, *sergeant*; mi ddoi'n ufudd. Rydw i wedi madda i chi. . . .

ROBERTS: Wel wir: mae gan Dduw ffordd ryfedd i godi proffwydi, Mr. Williams. Ambell dro, mae o'n i codi nhw o'u beddau. Mae o wedi gwneud hynny cyn heddiw.

EMRYS: Wel, wel, pwy wŷyr? Nos da . . . Ann—wylyd—rhyfeddod yr holl fyd!

LLEN.

1850
1851
1852

Y BEDWAREDD ACT.

[*Cegin y Sgellog Fawr, fel yn Act I, tuag wyth o'r gloch y nos. Y mae'r setl wedi ei gwthio'n ol, a lleithig yn ei lle, a ROBERT WILLIAM yn gorwedd arni. Y mae ELIN WILLIAM yn dyfod i mewn o'r tŷ llaeth : y mae'r ddau wedi heneiddio llawer, a'u bywiogrwydd wedi darfydd bron i gyd. Y mae ELIN WILLIAM yn trefnu'r cwrlid sydd tros ei gŵr, ac yn eistedd yn ddistaw o flaen y tân.*]

ROBERT WILLIAM : Mae o'n ddigon hir yn dwad, ond ydi o? Tuag wyth o'r gloch ddeydodd o y bydda fo yma.

ELIN WILLIAM (*yn edrych ar y cloc*) : O mi ddaw toc. . . . Dyn clên iawn ydi o, medda pawb. Piti na fasa fo'n stiwart ers talwm.

ROBERT WILLIAM : Piti na fasa'r hen sgweier wedi marw, ydech chi'n feddwl. Mae pob stiwart, welwch chi, yn newid i liw i siwtio'i fistar. Mi fasa hyd yn oed yr hen Jackson yn eitha dyn, tasa i fistar o'n debig i rywbeth. . . . Glywsoch chi rywun yn deyd sut y mae Huw Bennet, deydwch?

ELIN WILLIAM : Mae o'n codi allan rwan, medda nhw, ond roedd Lowri Bennet yn deyd mai digon gwanllyd ydi o o hyd.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM : Ydi o wedi toi i wair eto ?

ELIN WILLIAM : Ydi.

ROBERT WILLIAM : Wel, wel . . . cha i doi'r un das byth eto . . . yn y Sgellog beth bynnag. Ychydig feddylis i y basan ni'n mynd heb ddim, fel hyn, wedi i ni gynhilo ar hyd yn hoes . . . Elin !

ELIN WILLIAM : Wel ?

ROBERT WILLIAM : Mi freuddwydis i'r pnawn yma, fy mod i yn i weld o . . . Emrys, pan oeddwn ni'n cysgu'n y fan yma ar y mhen fy hunan.

ELIN WILLIAM (*yn wyllo*) : Mi fydda i yn i weld o bob nos bron. . . Heblaw mod i'n cael breuddwydio amdano fo, mi faswn i wedi marw ers blynyddoedd.

ROBERT WILLIAM : Wel, wel : waeth i ni beidio a styrbio'n hunain yn sôn am dano fo ; . . . mae popeth wedi mynd yn ddigon main arnon ni.

(*Distawrwydd. Cnoc wrth y drws. ELIN WILLIAM yn codi.*)

ELIN WILLIAM : Dyna Mr. Wynne wedi dwad. (*Yn agor y drws.*) Bobol annwyl ! Huw Bennet ! Sut daru chi fedru cerdded mor bell ?

HUW BENNET (*yn dyfod i mewn ar ddwy ffon*) : Wel, gymdogion, sut mae hi yma heno ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM : Hylo, Huw Bennet, sut rwyf ti ers talwm ? . . . Mae'n dda genni dy weld ti. . . . Rwyf ti'n mendio o mlaen i eto. Tyrd yma. (*Y ddau yn ysgwyl llaw.*)

ELIN WILLIAM : Steddych yn y fan yma, Huw Bennet. Rydech chi wedi blino, mi wranta.

HUW BENNET (*yn eistedd*) : Wel, tawn i'n llwgu'r munud ma . . . toes dim golwg dyn sal arnat ti, nag oes wir. Mi fyddi di o gwmpas dy betha ymhell o mlaen i eto, gei di weld.

ROBERT WILLIAM : Na, weldi, does dim fedar y ngwella i bellach. . . . Mae hi wedi mynd yn rhy ddiweddar. Ond wyddost ti beth ? mi fydda i'n meddwl weithia, cawn i weld Emrys yn sefyll ar y llawr yna, yn wych neu'n wael, yn dda neu'n ddrwg, . . . y medrwn i neidio gyn uchod a'r distia yna. Medrwn, myn fend i !

HUW BENNET : Wel, wel . . . pwy wŷr ? Ond i ddeyd y gwir wrthyt ti, mi ddylet gael hwsmon yma i d'helpu, gan na fedri di fynd o gwmpas dy hunan. Rydw i wedi sylwi fod y gwrychoedd yna wrth y gadlas yn flêr ofnatsan las. Mi yrra i Twm y gwas acw i daclu tipin yma fory.

ELIN WILLIAM : Diolch i chi'r un fath, Huw Bennet, ond waeth i chi beidio ddim. Rydan ni wedi gyrru am Mr. Wynne y Stiwart i ddwad yma : mi addawodd fod yma erbyn wyth.

BEDDAU'R PROFFWYDI

HUW BENNET : Wynne y stiwart newydd ?
I beth ? . . . i ddeyd wrtho fo lle ma'r hen
sgweier wedi mynd ?

ROBERT WILLIAM : Nage. . . . Wn i
mo hynny, er gwaethed dyn oedd y sgweier. . . .
Hwyrach fod y Brenin mawr wedi cael lle hyd yn
oed i'r sgweier yn un o'r llawer o drigfanna sydd
yn i dŷ.

HUW BENNET (*yn codi*) : Nag ydi, myn gafr
i ! . . . os nag oes gan y Brenin mawr gytiau
moch yn i drigfanna, ag os nad ydi popeth ddysgis
i yn yr Ysgol Sul yn ffwlbri . . . "Lle nad
â i mewn ddim aflan na halogedig." Mi elli di fod
yn ddigon tawel dy feddwl, Robert, na weli di mo
dy drwblo eto gan y sgweier, yr ochor yma na'r ochr
arall. . . . Ond dywed i mi, beth sydd arnat
ti eisio hefo Mr. Wynne ?

ROBERT WILLIAM (*yn rhoi'i ben i lawr yn
ddistaw*) : Rhoi'r Sgellog yma i fyny.

HUW BENNET : Rhoi'r Sgellog i fyny ? (*Mewn
llais isel.*) Beth ydi'r mater ?

ROBERT WILLIAM : Rydw i, fel y gweli di,
wedi mynd yn rhy wael i ffarmio byth eto . . .
rydw i wedi colli pob deileit yn y ffarm yma. Wyddost
ti faint o arian sy genni at y rhent nesa ? Elin,
dowch â'r jwg i lawr.

BEDDAU'R PROFFWYDI

ELIN WILLIAM (*yn myned at y dressal ac yn tywallt arian o'r jwg ar y bwrdd*): Dyma nhw, Huw Bennet, . . . pedair punt a saith a dima . . . i dalu hanner canpunt o rent.

(*Distawrwydd mawr am hir amser.*)

HUW BENNET (*yn sydyn*): Faint ydi gwerth y stoc yma a'r dodrefn?

ROBERT WILLIAM: Does fawr gwerth yn y stoc: rydan ni wedi gorfod madal â phopeth o ddim gwerth . . . does yma ddim gwerth trichant rhwng y cwawl. Mae'n rhaid i ni roi ocsiwn ar y cwawl . . . hen betha y nhad a nhaid a f'hen daid o mlaen i.

HUW BENNET: Rwan, gymdogion, newch chi addo wrtha i gadw'ch cega nghaead am bum munud? Mae arna i eisio sgwennu. Inc, Elin William, a phwt o gwilsyn.

(ELIN WILLIAM *yn dyfod ag inc a chwilsyn oddiar y dressal.*)

(HUW BENNET *yn tynnu cheque-book o'i boced ac yn ysgrifennu.*)

HUW BENNET: Be newch chi ag ocsiwn, deydwch? Ocsiwn wir! Os ydi trichant yn ddigon gen ti, mi bryna i'r stoc i gyd rhag trafferth . . . dyna *cheque* i ti amdanyn nhw. (*Yn estyn cheque i ROBERT WILLIAM.*)

BEDDAU'R PROFFWYDI

ROBERT WILLIAM (*yn edrych yn hir ar y cheque*) : Hm ! ddaru mi rioed feddwl y basat ti'n fy mhrynu i allan, Huw Bennet, naddo wir. . . . Pa bryd y mae arnat ti eisio cymryd meddiant ?

HUW BENNET : Heno !

ELIN WILLIAM : Heno ?

HUW BENNET : Ie . . . wrth gwrs, y chi fydd yn aros yma fel o'r blaen, dim ond mai f'enw i fydd ar y stoc.

ROBERT WILLIAM : Huw Bennet, 'r hen gyfaill, rydan ni'n fwy diolchgar iti na medra i byth ddangos: rwyt ti wedi bod y cyfaill a'r cymydog gora gafodd neb erioed. Ond, a deyd y gwir wrthyt ti, fedrwn i byth dalu llog iti . . . ond dydan ni yn methu talu'r rhent ?

HUW BENNET : Aros funud : gwna bwt o bapur yn deyd mai fi pia'r stoc.

ROBERT WILLIAM : Wel, gan dy fod ti am fynnu'n gwthio ni i drybini hefo'r ffarm yma eto, mi sgwenna i o. (*Yn ysgrifennu.*) Dyma fo. Neith o'r tro, dwad, heb stamp ?

HUW BENNET (*yn edrych ar y papur, ac yn ei roi ar y bwrdd*) : Oes gen ti faco yma ?

ROBERT WILLIAM : Oes yn tad, dyma fo ; helpa dy hunan.

BEDDAU'R PROFFWYDI

(HUW BENNET yn llenwi ei bibell, ac wedi gorffen yn gwneuthur spill o'r papur ac yn goleu'i bibell gydag ef.)

ROBERT WILLIAM: Huw, beth wyt ti'n neud?

ELIN WILLIAM: Beth sy arnoch chi, Huw Bennet? Ydech chi o'ch co?

HUW BENNET (*yn codi*): Rydw i'n mynd adra rwan i gael tipyn o hwyl yn deyd yr hanes wrth Lowri. . . . Wyt ti'n cofio nhaid, yr hen Robin Bennet y Gelli? Wel, mi gafodd yr hen bego arian, fel y gwyddost ti, reit siwr, ar ol yr hen berson, rhyw fil neu ddwy; ac er mwyn dangos i'r hen Dwm Cadi, ewyrth i William Prichard y London, faint oedd o'n feddwl o'i arian, mi daniodd i getyn hefo papur pumpunt ym mharlwr y *Red Lion*. Rydw i wedi bod ar hyd fy oes yn ysu am wneud yr un peth, a phedaswn i'n arfer mynd i'r *Red Lion*, mi faswn wedi gwneud ers talwm. Ond dyma fy nghyfle i wedi dwad, a rwan, dyma fi wedi offrymu tipyn bach o aberth hen ŵr—(*yn tynnu ei*—i'r Arglwydd—hen ŵr wedi bod yn llawer rhy grintachlyd a chybyddlyd ar hyd i oes. . . . Nos dawch, a pheidiwch gadael imi glywed byth eto amdanoch chi'n gadael y Sgellog na dim lol o'r fath.

BEDDAU'R PROFFWYDI

(*Curo wrth y drws : ELIN WILLIAM yn agor, MR. WYNNE yn dyfod i mewn.*)

WYNNE : Sut rydech chi yma i gyd heno ? Ydech chi'n o lew, Mrs. Williams ? Ydech chitha'n mendio, Robert William ? Sut mae Sgweier y Gelli heno ?

ELIN WILLIAM : Mae Huw Bennet yn dechra colli'i synhwyr, Mr. Wynne ! (HUW BENNET *yn cau ei ddwrn ar ELIN WILLIAM ac yn sisial, " Dim gair o'ch pen."*) Steddwch i lawr wrth y tân Mr. Wynne.

WYNNE : Wel, rydw i'n clywed fod arnoch chi eisio rhoi'r Sgellog yma i fyny.

ROBERT WILLIAM : Felly, roedden i'n meddwl pan ddaru mi yrru amdanoch chi, syr.

WYNNE : Wyddoch chi faint sy ers pan mae'ch teulu chi yma, Robert William ?

ROBERT WILLIAM : Na wn i wir, heblaw fod yna hen garreg fedd wrth ffenestr y llan, ag enw rhyw William Cadwalad o'r Sgellog Fawr arni, . . . wedi i gladdu yn y flwyddyn mil a chwe chant a deugain.

WYNNE : Rydech chi yma'n mhell cyn hynny. Rydw i'n meddwl mai tyfu o'r ddaear ddaru chi tuag amser y dilyw . . . Ag rydech chi'n mynd i madael, felly ?

HUW BENNET : Nag ydyn.

BEDDAU'R PROFFWYDI

WYNNE : Nag ydyn ? Beth ydech chi'n feddwl, Huw Bennet ?

HUW BENNET : Mae nhw'n mynd i aros yma bellach.

ROBERT WILLIAM : Fi fydd y dwytha o'r hen deulu, . . . pan a i odd ma. . . . does gen i neb ar f'ol.

WYNNE (*ynghlust* HUW BENNET) : Ewch i eistedd i'r fan yna, Huw Bennet, a pheidiwch a deyd gair o'ch pen nes cewch chi ganiatâd. (HUW BENNET *yn eistedd wrth y bwrdd mawr.*)

WYNNE (*yn codi, ac yn hamddenol*) : Wel, mae'n wir ddrwg genni glywed ych bod chi wedi newid ych meddwl. Wel, ydi wir, mae'n ddrwg genni. Y gwir plaen i chi ydi hyn. Rydw i wedi gosod y Sgellog ar gyfer y tymor nesa i denant newydd.

ROBERT WILLIAM : Gosod y Sgellog ?

ELIN WILLIAM : Wedi gosod yn cartre ni ?

WYNNE : Ie, a fedra i ddim tynnu'n ol . . . mae'r fargen wedi ei tharo.

ELIN WILLIAM : O, Mr. Wynne, rydech chi'n galed. Fedrwch chi ddim gneud rhywbeth i ddađ-wneud y peth, deydwch ? Cofiwch gymint ddaru ni ddiodde ar law'r sgweier, a'r hen stiwart o'ch blaen chi. . . . A chitha yn yr ysgol hefo fo . . . Emrys.

BEDDAU'R PROFFWYDI

WYNNE : Oeddwn, Mrs. Williams ; a chan ych bod chi'n sôn am ysgol, rhaid i mi gyfadde mai hogyn oedd yn yr ysgol hefo mi ydi'r tenant newydd. Middylech fod yn falch i roi'r lle i fyny iddo fo . . . mi wneith i'r Sgellog flodeuo fel gardd Saron, a mi wneith y wlad yma'n well o'i gwmpas hefyd. Mi fydd yn dda i'r pentre yma a'r ardal gael un dyn i'ch tynnu chi o'r gors yr ydech chi wedi mynd iddi hi.

ROBERT WILLIAM : Mr. Wynne, mi glywis i siarad fel yna o'r blaen, flynyddoedd yn ol, a dydw i'n beio dim arnoch chi,—rydech chi'n ifanc eto, ac heb goll'i'ch ffydd. Ond os dyn fel yna ydi o, mae yna ddigon o dorwyr beddau yng Nghymru ac yn yr ardal yma, i gael lle i'w roi ar unwaith. . . . Cofiwch y proffwydi a'r tadau . . . y rhai a aeth o'ch blaen chi. . . .

ELIN WILLIAM : Wel, wel, roedden ni wedi meddwl mynd odd ma . . . ond—(*yn wyllo*)—rwan, dyma ni'n cael yn hel. Arnon ni roedd y bai, wrth gwrs, yn sôn am y peth, ond . . .

HUW BENNET : Bedi'r jôc, Mr. Wynne? Mae gynnoch chi ffordd ryfedd iawn i fwynhau'ch hun ar hirnos gaea, mae'n rhaid imi ddeyd yn blaen wrthoch chi.

WYNNE : Rydw i o ddifri, Huw Bennet, a rhag i chi fynd i ddim petrusted pellach, hwyrach y byddai'n well i chi weld y tenant newydd. Mae o wedi

BEDDAU'R PROFFWYDI

cyrraedd yma er y pnawn, y fo a'i wraig, a mi peris i nhw aros yn y Sgellog Bach, nes galwn i arnyn nhw. Fydda i ddim munud.

(WYNNE yn myned allan.)

ROBERT WILLIAM: Wel. dyma hi ar ben, Huw Bennet. Peidiwch a chrio, Elin: mi fedrwn dalu *cheque* Huw Bennet yn ol, beth bynnag arall fedrwn ni dalu.

HUW BENNET: *Cheque* bybeth? Cadwch o; nid y fi pia fo. Mi fydd yn dda i chi wrtho fo eto, mae arna i ofn.

(*Distawrwydd mawr.*)

MALI OWEN (*o'r lloft*): Mae hi wedi taro pedwar. Ydi fara llaeth o yn barod?

ROBERT WILLIAM: Mae mam druan wedi colli arni hunan yn lân . . . mae hi wedi anghofio'r cwblwl o'r pymtheng mlynedd dwytha. Meddwl am Emrys yn hogyn bach y mae hi drwy'r dydd.

(*Drws yn agor. WYNNE yn dyfod i mewn a dau ddieithr,—gŵr a gwraig gydag ef. Gorchudd trwm ar wyneb y wraig, a'r gŵr â'i gôt fawr a'i cholwr wedi ei chodi.*)

(*Llais MALI OWEN yn gweiddi'n uchel.*)

WYNNE: Dyma nhw'r tenantiaid newydd. Rydw i wedi siarad hefo nhw, a mi gewch chwarae teg gynnyn nhw, mi wn. Mae gynnyn nhw ddigon o arian i'ch prynu chi a'r Gelli hefo'i gilydd Huw Bennet, er cymin o hen grafwr ydech chi.

BEDDAU'R PROFFWYDI

HUW BENNET : Wel, bendith ar i clonna nhw . . . os caiff yr hen bobol yma chware teg gynnyn nhw.

ROBERT WILLIAM : Sais ydech chi, syr, ynte Cymro ?

Y GWR : Cymro—o Canada.

ROBERT WILLIAM (*yn taflu'r blanced oddi arno, ac yn neidio i dynnu coler y dyn i lawr*) : Yr Arglwydd mawr ! Emrys !

ELIN WILLIAM : Eh ? Emrys annwyl ! mi ddoist o'r diwedd !

(HUW BENNET *yn taflu'i ddwyffon i fyny, ac yn hoblian dros y llawr.*)

HUW BENNET : Hwre ! Bendigedig !! Pwy ddeydodd fod yr Arglwydd yn anghofio'r cyfiawn ?

EMRYS : Mam annwyl !—(*yn cofleidio'i fam*)—a nhad—(*â'i law ar ei ysgwydd*)—a Huw Bennet. Does dim eisio croeso i mi . . . edrychwch ar hon.

ELIN WILLIAM : Ann, fel mae byw fi ! (*Yn ei chofleidio.*)

ROBERT WILLIAM : Wel, byth o'r fan ma, . . . sut rwyd ti, Ann ?—a thi ydi'i wraig o aie ?

EMRYS : Rydw i wedi dwad yma i edrych ar ych hola chi, am byth bythoedd . . . brecwast yn ych gwelâu bob dydd, a braster y wlad i chi, a heddwch yn ych hen ddyddiau. Ydech chi'n cofio'r noson honno, pan ddaeth y plisman a'r cipar yma ?

BEDDAU'R PROFFWYDI

ELIN WILLIAM : Ydw.

EMRYS : Wel, breuddwyd yng nghorff y nos neithiwr oedd hynny a dim arall . . . ac yr yden ni i gyd wedi bod yn cysgu er hynny. Rydw i wedi dwad i ail ddechra . . . ar y gwaith mawr.

HUW BENNET : Beth ydi o, machgen i ?

EMRYS : Gafael yn nau gorn yr arad, a dysgu i Llanfesach dorri cwys unionach ar wyneb y tir . . . dyna i gyd.

WYNNE : Deydwch wrthyn nhw pwy a'ch dysgodd chi, Emrys.

EMRYS (*yn gafael yn llaw ANN*) : Dyma hi,—dyma'r proffwyd. Hi tynnodd fi o'r pridd tew a'r clai tomlyd. Dyma i chi ddyniolaeth wedi diodde, ac wedi concro . . . ac yn awr yn medru dysgu pawb.

ANN : Tewch, Emrys . . . lle baswn i heblaw chi? Yn y workws y cafodd o hyd i mi. Sut y medrwn i ddysgu neb ?

EMRYS : Ie, yn y fan honno y dois i o hyd i fy ngwraig. O medrwch, mi fedrwch chi'n dysgu ni i gyd, Ann . . . am ych bod chi'n deall. Huw Bennet, 'r hen gyfaill annwyl, deydwch wrtha i sut ddyn oedd yr hen sgweier ?

HUW BENNET : Dyn melltigidig—dyn drwg o'r top i'r gwaelod.

BEDDAU'R PROFFWYDI

EMRYS : Nage wir, yr hen Rodd Mam, rydech chi'n methu, ydech wir. Mae Ann yma'n mynd i ddileu'r gair bai allan o'r geiriadur, ac yn mynd i roi tosturio yn ei le. . . . Mae hi wedi nysgu i i dosturio wrth ddyinion fel y sgweier.

ANN : Ie, Huw Bennet, mae yna rywun wedi bod yn anrheithio eneidiau yn yr hen fyd yma, er y dechra . . . a phobol fel y sgweier oedd nesa i'r ergydion hwyrach. Ond cofiwch chi, rhai fel chi a nhad a mam gorchfygith o yn y diwedd.

EMRYS : Ie, . . . rydw i wedi dysgu hynny tra buon ni yn Canada yn brwydro yn erbyn holl bwerau natur . . . ac hefo rhai fel chi rydw i am fyw bellach . . . yn cadw drws yn Seion.

(*Drws yn agor. MALI OWEN yn dyfod i mewn Pawb yn codi mewn dychryn.*)

MALI OWEN : O, mi ddoist adre, Emrys bach, o'r ysgol? Wyt ti am fynd i'r seiat heno?

EMRYS : Ydw, nain.

MALI OWEN (*yn estyn afal*) : Dyma afol i ti am ddysgu dy adnod. Dwad hi, ngwas i, er mwyn i dy nain i chlywed hi.

EMRYS (*yn sefyll ar ganol y llawer*) : "Gwyn eu byd y rhai addfwyn, canys hwy a etifeddant y ddaear."

LLEN.

E.P.C. New List of Plays & Dramas IN ENGLISH AND WELSH.

- DAFYDD AP GWILYM. A Romantic Cantata. (*Harry Evans.*)
PLANT Y PENTREF. Welsh School Play with music.
OWAIN GLYNDWR. Nos. 1 to 7. Short Plays for Schools.
CASTELL MARTIN. (*D. T. Davies.*)
FFROIS. (*D. T. Davies.*)
THE SECOND SON. (*Naunton Davies.*)
THE EPIDEMIC. (*Naunton Davies.*)
A MONOLOGUE FOR ME. (*Naunton Davies.*)
THE CONVERSION. (*Naunton Davies.*)
THE SCHEMER. (*Naunton Davies.*)
THE ARROGANCE OF POWER. (*Naunton Davies.*)
THE HUMAN FACTOR. (*Naunton Davies.*)
THE CRASH. (*Naunton Davies.*)
COLLI AC ENNILL. (*W. Bryn Davies.*)
THE FOUR-LEAVED CLOVER. (*Betty Eynon Davies.*)
Y FAM. (*Betty Eynon Davies a Kate Roberts.*)
SANTA CLÓS. (*Megfam.*)
TWCO 'FALAU. (*Megfam.*)
CANU CAROLAU. (*Megfam.*)
DYDD PEN-BLWYDD MEGAN. (*Megfam.*)
MERCHED Y MWMBWLS. (*Megfam.*)
THE RETURN. (*M. J. Lewis-James.*)
ALBERT'S WAY OUT. (*Muriel S. M. Evans.*)
Y TRYSOR CUDD. (*D. Lloyd Jenkins.*)
IOLO. (*John D. Lewis.*)
-

Licences for Public Performance to be obtained from
The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.



3 0112 072693457